Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

## 2019-20

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i bobl heneiddio ynddo.

# Sut i gysylltu â'r Comisiynydd

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com
Trydar: @comisiwnphcymru

# Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar berfformiad** | **04** |
| Rhagair | 05 |
| Fy rôl fel Comisiynydd | 06 |
| Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd | 07 |
| Fy Strategaeth a'm Blaenoriaethau | 08 |
| Fy Ymateb i Covid-19 | 09 |
| Gwaith a wnaed yn 2019-20 | 14 |
| Adolygiad o Falans y Cronfeydd wrth Gefn 2019-20 | 38 |
| Ein Huchafbwyntiau o ran Perfformiad Ariannol | 40 |
| Adroddiad ar Gynaliadwyedd | 43 |

| | |
|---|---|
| **Adroddiad Atebolrwydd** | **46** |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr | 47 |
| Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 52 |
| Datganiad Llywodraethu | 53 |
| Adroddiad ar staff a thaliadau | 60 |
| Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd | 73 |

| | |
|---|---|
| **Datganiadau Ariannol** | **76** |
| Datganiadau Ariannol | 76 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 80 |

# Adroddiad ar berfformiad

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a'r prif lwyddiannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan roi sylw i'r ystyriaethau allweddol a'r risgiau rwyf wedi'u hwynebu.

# Rhagair



Adeg ysgrifennu hwn, rydyn ni i gyd yn wynebu'r heriau sy'n codi yn sgil pandemig Covid-19, y cyfyngiadau ar ein bywydau a'r galar yn sgil colli anwyliaid.

Mae'n anochel bod yr adolygiad hwn o'r flwyddyn wedi ei lywio gan ein profiadau dros y misoedd diwethaf a'r effaith ar bobl hŷn. Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rydw i wedi teimlo hyn i'r byw ac rydw i'n cydymdeimlo'n ddiffuant â phawb sydd wedi colli anwyliaid, a'r rheini sy'n wynebu llawer o drafferthion ac anawsterau bob dydd.

Ond mae'r pandemig ofnadwy hwn wedi dangos ein hochr orau hefyd ac mae'r ymrwymiad, y creadigrwydd a'r undod y mae cynifer o bobl wedi'i ddangos wedi fy ysbrydoli a'm calonogi. Bydd angen hyn i gyd arnom, a mwy, wrth i ni fynd i'r afael â'r misoedd nesaf gyda'n gilydd.

Wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn, hoffwn ddiolch i'r holl bobl hŷn sydd wedi ymgysylltu â mi a'm tîm, am eu syniadau, eu doethineb, eu her a'u cefnogaeth. Yn benodol, hoffwn dalu teyrnged i Phyllis Preece, a fu farw eleni, gwaetha'r modd. Phyllis oedd Cadeirydd Confensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr a llawer mwy. Roedd hi'n ffrind da i mi a'm rhagflaenwyr a'n timau, ac mae colled fawr ar ei hôl.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl unigolion a sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw sy'n dangos pam gall Cymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio, er gwaethaf yr heriau eithriadol rydyn ni'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Cefais gefnogaeth dda gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sy'n darparu cyngor, asesiad a sicrwydd gwrthrychol a chlir ar risg, rhywbeth sy'n arbennig o bwysig yn y cyfnod hwn o newid cyflym a chyson.

Ac, yn olaf, hoffwn ddiolch o waelod calon i fy nhîm. Ni fyddai'r effaith rydw i'n ei chael fel Comisiynydd, ac fe fyddwch chi'n darllen am hyn yn yr adroddiad, yn bosibl heb eu gwaith caled a'u cefnogaeth amhrisiadwy nhw.



**Helena Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

# Fy rôl fel Comisiynydd

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 10 (1) (b).

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw gwarchod a hybu hawliau pobl hŷn, ac mae'r rôl wedi ei seilio ar bwerau cyfreithiol i adolygu a chraffu ar gyrff cyhoeddus, ac i gefnogi pobl hŷn.

Fel y nodwyd yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a sefydlodd y swydd, cylch gwaith y Comisiynydd yw:

- hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny;
- hyrwyddo'r cyfleoedd a ddarperir i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu rhagfarn yn eu herbyn;
- annog ymarfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru; a
- pharhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Gyda chymorth tîm bach, rwy'n craffu ac yn dylanwadu ar amryw o bolisïau, deddfwriaethau, canllawiau a rheoliadau er mwyn sicrhau bod gwneuthurwyr polisi a phenderfyniadau, ar lefel genedlaethol a lleol, yn deall anghenion pobl hŷn, a phwysigrwydd cynnal eu hawliau. Ochr yn ochr â hyn, rwy'n ymgysylltu â gwaith cyrff cyhoeddus ac yn monitro'r gwaith hwnnw, gan eu dal yn atebol lle y bo angen, yn ogystal ag amlygu a hyrwyddo arferion da sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl hŷn.

Rwyf hefyd yn darparu gwasanaeth gwaith achos, gan gynnig cymorth, cyngor a chefnogaeth ar amryw o faterion i gannoedd o bobl hŷn bob blwyddyn, gan eu helpu nhw i ddeall ac i ddefnyddio eu hawliau cyfreithiol, ac i herio arferion drwg a phenderfyniadau gwael. Mae'r gefnogaeth y mae fy nhîm gwaith achos yn ei gynnig yn rhoi syniad o'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn, gan helpu i arwain a llywio fy ngwaith, ac i ganfod yr heriau y mae angen i mi weithio arnynt, neu eu codi gyda phobl eraill.

Mae ymgysylltu â phobl hŷn yn rhan allweddol arall o fy ngwaith, ac mae fy nhîm a minnau'n cwrdd ac yn siarad â phobl hŷn ledled Cymru yn gyson er mwyn clywed yn uniongyrchol ganddynt am eu profiadau a'u pryderon, ac er mwyn gweld yr amrywiaeth o brosiectau a mentrau sy'n rhoi gwasanaethau a chymorth hanfodol i bobl hŷn yn ein cymunedau. Yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd, byddaf yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl hŷn a chael cyswllt o ddydd i ddydd â nhw, yn ogystal â sicrhau bod eu lleisiau, eu profiadau, a'u syniadau yn arwain fy ngwaith ac yn cyfrannu ato.

# Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd

Rwyf eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn ynddo.


Mae hyn yn golygu dathlu'r ffaith ein bod ni'n gymdeithas sy'n mynd yn hŷn, a sicrhau bod pob un ohonom yn gallu mwynhau'r cyfleoedd sy'n deillio o hynny. Mae'n golygu bod yn barod i fynd i'r afael â'r heriau y gallem eu hwynebu wrth i ni fynd yn hŷn, a sicrhau bod pobl hŷn, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'n golygu croesawu a hybu arloesedd ac arferion da er mwyn ysbrydoli pobl i weithredu, gan ddal pobl yn atebol pan fo angen.

Mae hefyd yn golygu grymuso pobl hŷn drwy sicrhau eu bod nhw'n deall eu hawliau cyfreithiol, a sut y gallent ddefnyddio'r hawliau hynny i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac i herio arferion drwg.

## Ymddygiadau a Gwerthoedd Mewnol y Sefydliad

Yn ystod 2019-20, fe wnes i gydweithio â staff ar ddyluniad ein gwerthoedd a'n hymddygiadau sefydliadol.  Mae'r gwerthoedd hyn yn arwain diwylliant y sefydliad ac yn sail i'n hamcanion perfformiad personol.



### Un Tîm

Rhoi nodau a rennir o flaen agendâu unigol


Cynnig cymorth i bobl eraill mewn modd rhagweithiol



### Parchus

Mynd ati'n weithredol i ofyn am farn pobl eraill

Gwerthfawrogi gwahanol syniadau a safbwyntiau



### Cynhwysol a Chyfeillgar

Talu sylw i'n llesiant ein gilydd

Bod yn garedig, yn groesawgar ac yn gefnogol gyda phawb

Ystyried yr hyn rydyn ni'n ei ddweud a'i wneud, ac effaith hynny ar bobl eraill




### Agored

Herio mewn modd adeiladol a bod yn barod am her

Dysgu gan bobl eraill

Chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau bob amser



### Uchelgeisiol

Bod yn frwd dros ein gweledigaeth

Anelu at ragoriaeth

Bod yn flaengar ac yn barod i gymryd risgiau rhesymol i gael effaith



### Gonestrwydd

Ymdrechu i wneud y pethau iawn a chymryd cyfrifoldeb dros ein gwaith

Gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud ein bod ni am ei wneud

# Fy Strategaeth a'm Blaenoriaethau

## Gwneud Cymru y Lle Gorau yn y Byd i Heneiddio

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddais fy strategaeth dair blynedd - Gwneud Cymru y Lle Gorau yn y Byd i Heneiddio - sy'n nodi fy mlaenoriaethau, y canlyniadau yr wyf am eu gweld ar gyfer pobl hŷn, a'r camau y byddaf yn eu cymryd fel Comisiynydd i helpu i wneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio.


Datblygwyd fy strategaeth yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu helaeth gyda phobl hŷn a rhanddeiliaid ledled Cymru, ac mae'n canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol:

- Rhoi diwedd ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oed
- Rhoi terfyn ar gam-drin pobl hŷn
- Galluogi pawb i heneiddio'n dda

Ochr yn ochr â chyflawni ystod eang o waith yn erbyn y blaenoriaethau hyn, a nodir isod, rwyf wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion ar lefel genedlaethol a lleol, yn ogystal â chraffu ar gyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol lle bo angen.

Hefyd, rwyf wedi bod yn annog gweithredu gan gyrff eraill i gyflawni newid, drwy hyrwyddo arfer da a rhannu gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd drwy fy ymgysylltu parhaus â phobl hŷn ledled Cymru.

Rwyf hefyd wedi parhau i ddarparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy fy ngwasanaeth gwaith achos, sydd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymholiadau yn ystod 2019-20 (gweler isod).



# Fy Ymateb i Covid-19

Wrth i Gymru fynd dan glo, newidiodd ffocws fy ngwaith yn sylweddol. Cafodd llawer o'r gwaith oedd i ddigwydd o fis Ebrill 2020 ymlaen ei ohirio fel y gallwn ganolbwyntio ar warchod hawliau pobl hŷn a sicrhau y gallent dderbyn cymorth a chefnogaeth.

Rhoddir crynodeb isod o'r camau a gymerwyd i ymateb i'r heriau a'r problemau a gododd o ganlyniad i'r pandemig.

## Dysgu Gwersi a pharatoi am y cyfnod nesaf

Rwyf yn gweithio i sicrhau bod anghenion pobl hŷn, a'u profiadau yn ystod pandemig Covid-19, yn dylanwadu ar y penderfyniadau a'r camau a gymerir wrth i Gymru adfer o'r pandemig.

Ym mis Awst cyhoeddais 'Gadael Neb Ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer Adferiad o Blaid Pobl Hŷn', sy'n disgrifio'r camau sydd angen eu cymryd mewn sawl maes pwysig i sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt, nad ydynt yn cael eu heithrio o gymdeithas, a'u bod yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i'n cymunedau a'n heconomi.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar brofiadau pobl hŷn, gan gynnwys rhai y cefais gyswllt uniongyrchol â nhw, a hefyd yn defnyddio tystiolaeth ehangach i edrych ar effaith Covid-19 ar bobl hŷn a phenderfynu pa newidiadau a gwelliannau sydd angen eu gwneud.

Mae'r alwad gennyf i weithredu'n disgrifio beth sydd raid digwydd yn syth, yn ogystal â'r newidiadau strwythurol creiddiol mwy hirdymor i ddatrys y problemau hirsefydlog a wynebir gan bobl hŷn, ac a waethygwyd gan Covid-19.

Ochr yn ochr â hyn byddaf hefyd yn parhau i gwrdd a chael cyswllt â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru ac i weithio â chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod gweithredu i ateb yr heriau a'r problemau a wynebir gan bobl hŷn yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau a phenderfyniadau wrth i Gymru symud ymlaen.

## Gwarchod hawliau pobl hŷn

Yn dilyn pryderon a godais na chafodd hawliau pobl hŷn efallai eu gwarchod ddigon yn ystod y pandemig Covid-19, rwyf yn gweithio â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i edrych ar y ffactorau dylanwad mwyaf effeithiol, gan gynnwys defnyddio pwerau cyfreithiol, i graffu ar y penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, er mwyn canfod pa welliannau y gellir eu gwneud i sicrhau y gwarchodir hawliau pobl hŷn.

Codais nifer o bryderon am hawliau pobl hŷn, ac effaith gwahaniaethu a rhagfarn ar sail oed ar bobl hŷn yn ystod y pandemig, pan fues i'n rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd, gan groesawu'n gryf iawn yr alwad ganddynt i weithredu er mwyn adfer, gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl.

Byddaf hefyd yn parhau i weithio â'r rhwydwaith a sefydlais ym mis Mawrth o arweinwyr sefydliadau allweddol sy'n cefnogi pobl hŷn ar draws y DU, gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon, Age UK, Independent Age, Age Cymru, Age Scotland, Age NI a Scottish Care. Mae'r rhwydwaith yn craffu ar y camau a gymrodd lywodraethau a chyrff cyhoeddus ar draws y DU mewn ymateb i Covid-19 i sicrhau y gwarchodir hawliau pobl hŷn a byddant yn codi unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda llais pwerus a chyfunol.

Yn defnyddio'r llais hwn, mae'r grŵp wedi cyhoeddi datganiadau rhagweithiol ar hawliau pobl hŷn i dderbyn triniaeth ac ar benderfyniadau unfath ynghylch hysbysiadau Peidio Gwneud CPR, a gafodd sylw helaeth yn y cyfryngau ar draws Cymru a'r DU gan arwain at newid dull a threfn yng Nghymru a gwledydd eraill y DU.

## Gwarchod a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru

Ers dechrau'r pandemig, roeddwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i warchod a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru, yn enwedig bod angen i brofion fod ar gael i breswylwyr a staff yn ein holl gartrefi gofal, rhywbeth a gafodd ei adael allan i ddechrau o bolisi profi'r llywodraeth.

Galwais am gyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer cartrefi gofal – yn trafod materion allweddol fel mynediad at brofion, cyflenwi cyfarpar diogelu personol, rhyddhau o'r ysbyty a sicrwydd ariannol – er mwyn tawelu meddyliau pobl hŷn, eu teuluoedd a staff cartrefi gofal y byddai'r camau iawn yn cael eu cymryd, ar yr amser iawn, i'w gwarchod a'u cefnogi. Bwriedir cyhoeddi'r cynllun gweithredu hwn ym mis Medi a byddaf yn monitro ei weithrediad yn ofalus ar draws Cymru.

Ym mis Mehefin cyhoeddais hefyd fy adroddiad 'Lleisiau Cartrefi Gofal' oherwydd roeddwn yn poeni nad oedd lleisiau pobl hŷn, eu teuluoedd a'u ffrindiau, a staff cartrefi gofal – 'arbenigwyr drwy brofiad' – yn cael eu clywed yn ddigonol.

Mae'r adroddiad yn rhoi llais i bobl sy'n byw a gweithio mewn cartrefi gofal ac yn rhoi ciplun o'u profiadau yn ystod y pandemig. Mae ei ganfyddiadau'n seiliedig ar dros 120 o atebion (a dderbyniwyd ym Mai a Mehefin) i gyfres o gwestiynau am brofiadau pobl mewn cartrefi gofal dros y cyfnod clo, y problemau a'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu, a'r newidiadau a'r gwelliannau yr hoffent eu gweld.

Mae'r adroddiad nid yn unig yn tynnu sylw at y problemau a'r heriau, ond hefyd at rai o'r arferion da a wnaeth wahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal o dan yr amgylchiadau mwyaf anodd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl galwad i weithredu – ar sail yr hyn a ddywedodd bobl hŷn, eu teuluoedd a ffrindiau, a staff cartrefi gofal – yn disgrifio beth sydd angen iddo ddigwydd, yn syth ac yn y tymor hirach, i sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu gwarchod a'u cadw'n ddiogel ac yn byw bywydau o'r ansawdd gorau.

## Sicrhau mynediad i bobl hŷn at wasanaethau iechyd a gofal

Rwyf wedi bod yn gweithio i ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, drwy gyswllt a chraffu ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill, ac fel aelod o sawl rhwydwaith a grŵp cynghori allweddol, fel Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol Covid-19 Cymru a gyhoeddodd y fframwaith gwerthoedd ac egwyddorion moesegol ar gyfer darparu gofal iechyd.

Rwyf hefyd yn gweithio i sicrhau bod darpariaethau Deddf Coronafeirws 2020 – yn dileu dyletswydd awdurdodau lleol i asesu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl gymwys, sydd wedi'i hymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – yn cael eu diddymu cyn gynted â phosib i sicrhau bod hawliau pobl hŷn o dan ddeddfwriaeth 2014 yn cael eu hadfer yn llwyr.

## Cefnogi pobl hŷn sy'n cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin

Rwyf wedi sefydlu Grŵp Gweithredu o dros 30 o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y gall pobl hŷn dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i'w diogelu a'u hamddiffyn rhag troseddu a chael eu cam-drin.

Mae'r grŵp wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r pethau y gall pobl hŷn ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn eu hunain, ac o rôl y cyhoedd yn gyffredinol mewn gwarchod pobl hŷn. Ochr yn ochr â hyn bu'r grŵp yn hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i helpu pobl hŷn, ac yn annog pobl i adrodd unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am les neu ddiogelwch person hŷn.

I gyd-fynd â hyn mae'r grŵp wedi cynhyrchu pecyn yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol am sut y gall pobl hŷn aros gartref ac amddiffyn eu hunain rhag cam-drin, sgamiau a throseddu. Mae'r grŵp hefyd wedi cyhoeddi nifer o ddatganiadau rhagweithiol – am adnabod cam-drin ac adrodd pryderon, troseddau a sgamiau a ddigwyddodd yn ystod y pandemig, ac am aros yn ddiogel ar-lein, gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddosbarthu gwybodaeth, negeseuon ac adnoddau'n sydyn ac eang.

Mae aelodau o'r grŵp gweithredu wedi ffurfio Grŵp Llywio i sicrhau dull strategol o geisio ateb problemau a gododd yn sgîl y pandemig a nifer o faterion hirsefydlog yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn. Maen nhw wedi creu strategaeth i'w gweithredu gan y grŵp sy'n cynnwys:

- Mapio'r gwasanaethau a'r cymorth ehangach sydd ar gael i bobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin, ac adnabod bylchau ac ymarfer da, er mwyn rhoi'r gwasanaethau a'r cymorth angenrheidiol yn ei le.
- Sicrhau bod tystiolaeth a data ar gam-drin yn cynnwys pobl hŷn, gan gynnwys drwy ddileu'r uchafswm oed o 74 ar ddata troseddu Cymru a Lloegr.
- Galluogi a grymuso pobl hŷn i deimlo'n hyderus i rannu eu profiadau o gam-drin gan annog eraill i wneud yr un peth.

Rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio gwaith y grŵp gweithredu i ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu Cymru Gyfan i roi stop ar gam-drin pobl hŷn a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gynorthwyo ei ddarparu.

## Darparu cymorth a chefnogaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd

Rwyf wedi darparu cymorth a chefnogaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd ar ystod o faterion yn ymwneud â Covid-19 drwy fy nhîm gwaith achos. I reoli'r cynnydd yn y galw, penderfynais adleoli rhai staff gan roi trefniadau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw darfu ar y gwasanaeth gwaith achos pan fydd pobl hŷn yn cysylltu â'r swyddfa dros y ffôn neu drwy'r post.

Yn ogystal â'r cymorth uniongyrchol hwn i unigolion, rwyf wedi sefydlu hŷb gwybodaeth coronafeirws ac adran 'Cwestiynau Cyffredin' ar fy ngwefan i roi'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf i bobl hŷn a'u teuluoedd ynghyd â manylion am gymorth a gwasanaethau lleol. Hyd yma mae dros 3,000 o unigolion wedi ymweld â'r Hŷb a'r Cwestiynau Cyffredin, a rhai wedi ymweld droeon. Byddwn yn parhau i'w diweddaru wrth i ni dderbyn gwybodaeth a chanllawiau newydd.

Rwyf hefyd wedi defnyddio fy sianeli cyfryngau cymdeithasol i rannu'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru a chyrff allweddol eraill, gan sefydlu grŵp Facebook newydd - Together We Are Stronger – sy'n rhoi rhywle i bobl hŷn, eu teuluoedd a

gweithwyr proffesiynol gael cysylltu a sgwrsio, gofyn cwestiynau, postio gwybodaeth a gwybod pa gymorth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt.

## Ymgysylltu â phobl hŷn

O gofio'r rôl greiddiol y mae ymgysylltu â phobl hŷn yn ei chwarae gyda thywys a dylanwadu ar fy mlaenoriaethau a fy ngwaith, trefnais sesiynau ymgysylltu ar-lein drwy gydol y pandemig i wrando'n uniongyrchol ar bobl hŷn ar draws Cymru'n siarad am eu profiadau a pha newidiadau a gwelliannau y byddent yn hoffi eu gweld, i sicrhau bod eu lleisiau'n dylanwadu ar y gweithredu a'r penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, yn y tymor byr a hirach.

Rwyf hefyd wedi cwrdd yn rheolaidd ag arweinwyr y prif sefydliadau cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru (Cymru Egnïol, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA), Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, a Senedd Pobl Hŷn Cymru) i glywed am brofiadau eu haelodau, unrhyw faterion a heriau y maen nhw wedi eu hwynebu, ac i gyflwyno'r wybodaeth a'r datblygiadau diweddaraf y gellir eu rhaeadru i bobl hŷn, yn enwedig rhai nad ydynt ar-lein.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn y sesiynau ymgysylltu hyn wedi helpu i ddylanwadu ar fy adroddiadau 'Lleisiau Cartrefi Gofal' a 'Gadael Neb Ar Ôl', a hefyd wedi cynorthwyo craffu a gwaith ehangach i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer, yn genedlaethol a lleol.

## Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill

Rwyf wedi gweithio'n adeiladol â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill drwy gydol y pandemig, ond heb betruso i'w dal i gyfrif lle'r oeddwn yn teimlo na wnaed digon i warchod a chefnogi pobl hŷn, gan godi pryderon yn gyhoeddus lle'r oedd angen gwneud hynny i ysgogi newid a gweithredu.

Rwyf wedi cwrdd yn wythnosol â'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol i godi materion sydd o bryder i bobl hŷn; i dynnu sylw lle mae hawliau pobl hŷn yn cael eu bygwth; i gynnig ac ôl-ddilyn meysydd lle'r oedd angen gweithredu; ac i weithio i sicrhau bod y wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf i bobl hŷn yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

Rwyf yn cwrdd yn rheolaidd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) sy'n rhoi cymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt ddechrau symud tuag at adferiad. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gweithredu ar lefel leol yn ateb anghenion pobl hŷn ac nad yw'n eu heithrio rhag ail-ymgysylltu ac ail-ymroi i'w cymunedau a chymryd rhan yn yr adferiad.

Yn ogystal â hyn, byddaf i a fy nhîm hefyd yn monitro a chraffu gwaith y byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill i gadarnhau bod y cynlluniau sydd yn eu lle, a'r gweithredu ganddynt, yn sicrhau y gall pobl hŷn dderbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd ei angen arnynt.

# Effaith Covid-19 ar waith ehangach

Oherwydd effaith aruthrol y pandemig ar gymdeithas mewn nifer y ffyrdd, bu'n rhaid i mi ail-ymweld â chynlluniau'n ymwneud â sawl darn pwysig o waith oedd i ddigwydd yn 2020-21.

Er enghraifft, mae ffocws fy ymgyrch #EverydayAgeism, oedd i symud tuag at ei ail gam yn Ebrill 2020, yn cael ei ailystyried yng ngoleuni'r enghreifftiau dychrynllyd o ragfarn a gwahaniaethu ar sail oed a welsom yn ystod y pandemig.

Mae fy ngwaith o edrych ar gludiant ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru hefyd yn cael ei adolygu oherwydd y newid mawr yn y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a chludiant yn cael eu darparu a beth allai hyn ei olygu i bobl hŷn yn y tymor byr a hirach.

Rwyf yn datblygu cynllun busnes mwy diweddar sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref, fydd yn disgrifio'r blaenoriaethau a'r gweithredu y bwriadaf eu darparu yn ail hanner 2020-21, ac ymlaen i'r flwyddyn ganlynol, fydd wedi eu dylanwadu gan yr amgylchiadau y byddwn ynddynt wrth i ni fynd i mewn i'r gaeaf. Yn ategu'r cynlluniau hyn fydd ymgysylltu helaeth â phobl hŷn, ffocws ar warchod a hyrwyddo eu hawliau ynghyd â chraffu manwl ar benderfyniadau a gweithredu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

# Gwaith a wnaed yn 2019-20

# Cipolwg ar y Flwyddyn 2019-20




## Ebrill 2019

Y Comisiynydd yn cyhoeddi ei strategaeth 2019-22 - Gwneud Cymru'r lle gorau yn y byd i heneiddio.

Cyhoeddi datganiad ar y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i hyrwyddo undod rhwng cenedlaethau.



## Mai

Darparu tystiolaeth i ymchwiliad pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd ar hawliau ariannol yng Nghymru.

Codi pryderon am effaith newidiadau i Gredyd Pensiwn a Budd-dal Tai ar bobl hŷn.



## Mehefin

Cychwyn ymchwil sy'n edrych ar sut mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud penderfyniadau er mwyn gwella mynediad i bobl hŷn at gyfiawnder.

Cynnal y cyntaf mewn cyfres o sesiynau bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid arbenigol i archwilio ffyrdd o ganfod ac atal cam-drin ymysg pobl hŷn.



## Gorffennaf

Lansio holiadur a chychwyn cynnal sesiynau grŵp ffocws ledled Cymru i glywed profiadau pobl hŷn o drafnidiaeth i wasanaethau iechyd.

Croesawu'r cyhoeddiad y bydd pobl hŷn yn gallu cael gafael ar gyllid ar gyfer dysgu gydol oes, ar ôl codi pryderon bod eithriadau'n mynd yn groes i hawliau pobl hŷn.




## Awst

Cyflwyno sesiynau hyfforddi ar fynd i'r afael â cham-drin domestig i dros 100 o staff Bwrdd Iechyd Hywel Dda fel rhan o gyfres o seminarau hyfforddi a gynhelir ledled Cymru.

Lansio tudalen Facebook newydd i estyn allan i ymgysylltu â hyd yn oed mwy o bobl hŷn trwy'r cyfryngau cymdeithasol.



## Medi

Cyflwyno'r cyntaf mewn cyfres o gynadleddau a gweithdai a gynhelir ledled Cymru i gefnogi cymunedau i ddod yn fwy o blaid pobl hŷn.

Cynnal Rhwydwaith Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn y DU i rannu gwersi, syniadau ac arfer da gyda chydweithwyr o bob rhan o'r DU.



### Hydref

Cyhoeddi ‘Cyflwr y Genedl’, sy’n tynnu ar ystod eang o dystiolaeth a data sydd ar gael i roi cipolwg ar brofiad pobl o heneiddio yng Nghymru a galw am ystod o weithredu.

Lansio ei hymgyrch Oedraniaeth Bob Dydd, i dynnu sylw a herio rhagfarn ar sail oed a gwahaniaethu.



### Tachwedd

Dosbarthu dros hanner miliwn o daflenni i bobl hŷn ledled Cymru (wedi’u hanfon gyda’r tocynnau bws newydd) i annog pobl hŷn i hawlio Credyd Pensiwn.

Lansio canllaw gwybodaeth newydd mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i gefnogi pobl hŷn gyda Chynllunio Gofal Ymlaen Llaw



### Rhagfyr

Croesawu cyhoeddiad na fydd cynnydd yn yr oedran i gael tocyn bws, ar ôl mynegi pryderon difrifol am effaith y cynigion.

Cyhoeddi fersiwn newydd o’i chanllaw i’r gyfraith (wedi’i ddiweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth newydd) i gefnogi ymarferwyr yn eu gwaith beunyddiol.



### Ionawr

Cwrdd ag aelodau fforwm BAME Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru i sicrhau bod eu lleisiau a’u profiadau yn arwain ac yn siapio ei gwaith.


Cynnal bwrdd crwn ‘Dyfodol Fy Mywyd Cartref’ i archwilio ffyrdd o gefnogi cartrefi gofal i wella ansawdd bywyd pobl hŷn.



### Chwefror

Cyflwyno’r cyntaf mewn cyfres o gyrsiau hyfforddi i bobl hŷn a rhanddeiliaid i’w grymuso i weithredu yn erbyn rhagfarn ar sail oed.

Cyhoeddi ‘Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth’, llyfryn gwybodaeth newydd i rymuso pobl hŷn sydd ddim yn gallu cymryd rhan yn yr hyfforddiant i herio rhagfarn ar sail oed a gwahaniaethu.



### Mawrth 2020

Cyhoeddi ffeithlun ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod i ddathlu cyfraniad menywod hŷn yng Nghymru, sydd yn aml ddim yn cael ei gydnabod.

Ail-lunio ei chynlluniau gwaith i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth yn ymwneud â Covid-19 i bobl hŷn, a chraffu ar gamau a phenderfyniadau cyrff cyhoeddus.

# 2019-20 Mewn Rhifau

| | |
|---|---|
| **3,300** | Nifer y bobl hŷn mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi cwrdd â nhw yn ystod 2019-20 |
| **681** | Nifer y bobl hŷn a dderbyniodd gefnogaeth trwy dîm gwaith achos y Comisiynydd (cynnydd o 71% o'i gymharu â 2018-19) |
| **1,000** | Nifer bras y bobl a gymerodd ran mewn sesiynau hyfforddi neu ddysgu a gyflwynwyd gan y Comisiynydd |
| **500,000** | Nifer y taflenni a ddosbarthwyd i bobl hŷn ledled Cymru i'w hannog i hawlio Credyd Pensiwn |
| **258** | Nifer yr eitemau newyddion ar draws y Teledu, Radio a Phrint sy'n tynnu sylw at waith a rôl y Comisiynydd (mae hynny'n gyfartaledd o un bob dydd gwaith) |
| **£6m** | Amcan o werth hysbysebu am eitemau newyddion sy'n ymwneud â gwaith y Comisiynydd |
| **100,000** | Amcan nifer y bobl a gyrhaeddwyd trwy dudalen Facebook newydd y Comisiynydd ers ei lansio ym mis Awst 2019 |
| **900,000** | Amcan nifer yr argraffiadau ar Twitter yn ystod 2019-20 |

# Ymgysylltu gyda a chefnogi pobl hŷn ar draws Cymru

## Ymgysylltu â phobl hŷn ar draws Cymru

Rwyf i a fy nhîm wedi cwrdd a siarad â thros 3,300 o bobl hŷn yn 2019-20 gan ymweld â 98 o grwpiau ar draws Cymru i glywed yn uniongyrchol am eu profiadau o fynd yn hŷn, yr heriau a'r rhwystrau a wynebir ganddynt, a pha newidiadau y byddent yn hoffi eu gweld i wella eu bywydau.

Wrth benderfynu pa grwpiau i ymgysylltu â nhw, rhoddwyd ffocws penodol ar gyrraedd amrywiaeth eang o bobl hŷn i sicrhau bod gan bobl hŷn gyda nodweddion gwarchodedig gyfle i rannu eu profiadau a dweud eu dweud. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Stonewall Cymru i ymgysylltu â phobl hŷn LGBTQ+ ynghyd â mwy o ymgysylltu â phobl hŷn BAME drwy grwpiau a sefydliadau fel Windrush Elders Cymru, Fforwm BAME EYST Cymru Gyfan a Diverse Cymru. Mae'r ymgysylltu hwn wedi casglu tystiolaeth hynod ddefnyddiol am brofiadau penodol y grwpiau hyn a'r rhwystrau neilltuol y gallent fod yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â gwasanaethau neu gael gafael ar gyngor a chymorth.

Drwy'r digwyddiadau a'r sesiynau ymgysylltu hyn, rwyf i a fy nhîm hefyd wedi gallu rhannu adnoddau defnyddiol – fel taflenni a chanllawiau gwybodaeth - â phobl hŷn a thynnu sylw at fy rôl a fy ngwaith, gan gynnwys y cymorth a roddaf i bobl hŷn drwy fy nhîm gwaith achos.

Mae'r tîm gwaith achos wedi gweithredu ar bryderon a godwyd gan bobl hŷn yn y digwyddiadau ymgysylltu, lle'r oedd angen cyngor neu gymorth. Defnyddiwyd y pryderon hefyd i oleuo fy mlaenoriaethau a fy ngwaith ac i adnabod lle'r oedd angen gwella.

Rwyf hefyd wedi ymgysylltu'n rheolaidd â chadeiryddion fforymau a grwpiau cenedlaethol pobl hŷn drwy Gymru – gan gynnwys â Chynghrair Pobl Hŷn Cymru, Senedd Pobl Hŷn Cymru, Cymru Egnïol a'r Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol – i glywed am farn a phrofiadau eu haelodau ac i geisio canfod atebion posib i'r problemau a wynebir ganddynt.

Yn ogystal rwyf wedi parhau i gyhoeddi cylchlythyr chwarterol sy'n cael ei ddosbarthu i tua 1,700 o bobl hŷn a rhanddeiliaid drwy Gymru drwy gopi caled ac e-bost. Mae'r cylchlythyr yn rhoi gwybodaeth am fy ngwaith a'r hyn yr wyf yn ei wneud i gyflwyno newid i bobl hŷn, ac yn rhoi pobl hŷn mewn cysylltiad â chymorth ac adnoddau defnyddiol.

## Ymgysylltu â Chyrff Rhanddeiliaid

Yn ogystal ag ymgysylltu'n helaeth â phobl hŷn drwy'r wlad, yr wyf i a fy nhîm hefyd wedi ymgysylltu â chyrff sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector gan gwrdd ag unigolion allweddol, ymweld â gwasanaethau rheng flaen a chynnal stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau rhanddeiliaid.

Mae'r ymgysylltu hwn wedi rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth, hyrwyddo a thynnu sylw at ymarfer da, adnabod unrhyw gyfle i weithio mewn partneriaeth, a lle bo angen i drafod pryderon a meysydd lle mae angen gwella.

Rwyf hefyd wedi rhoi areithiau fel prif siaradwr mewn amryw o ddigwyddiadau a chynadleddau rhanddeiliaid a fu'n gyfle i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn gan ysgogi mwy o

drafodaeth am sut i gyflwyno'r newidiadau fydd yn gwella ansawdd bywyd pobl hŷn.

Roedd hyn yn cynnwys tynnu sylw at waith sydd ar y gweill yng Nghymru i wella bywydau pobl hŷn a rôl y Comisiynydd mewn sbarduno newid, mewn digwyddiadau rhyngwladol fel cynadledd flynyddol y Ganolfan Hirhoedledd Ryngwladol a Cholocwiwm y DU-Canada.

Rhoddais hefyd areithiau fel prif siaradwr mewn nifer o ddigwyddiadau eraill yn 2019-20 lle'r oedd y ffocws ar wahanol agweddau ar fynd yn hŷn yng Nghymru a beth sydd ei angen i wneud Cymru'r lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn, er enghraifft:

- Cynhadledd Cysylltu'r Cenedlaethau – Dathlu a Dysgu, Prifysgol Bangor
- Cynhadledd Gweithwyr Proffesiynol yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol
- Cynhadledd Genedlaethol Mens Sheds
- Cynadleddau blynyddol y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol a Cymru Egnïol

## Gweithio gyda'r cyfryngau

Gweithiais i gynnal presenoldeb cryf yn y cyfryngau drwy gydol 2019-20 er mwyn tynnu sylw at fy ngwaith, galw am weithredu a gwelliannau a chynnig dealltwriaeth a sylwadau ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyfweliadau i raglenni newyddion radio a theledu ynghyd â chyfraniadau hirach a mwy manwl at raglenni materion cyfoes, gan gynnwys cyfweliad ar sgamiau ariannol i raglen Tonight ITV a ddarlledwyd ar draws y DU.

Rhoddwyd sylw i fy ngwaith mewn papurau newydd cenedlaethol a lleol, a hefyd mewn cyhoeddiadau mwy arbenigol fel y cylchgrawn Exchange gan Sefydliad Bevan, Cyfnodolyn Chwarterol Tai Cymru a gynhyrchir gan y Sefydliad Tai Siartredig ac yn y cylchgrawn Care Home Management, sy'n cyrraedd cynulleidfa ledled y DU.

Yn 2019-20 rhoddwyd sylw i fy ngwaith mewn 258 o eitemau newyddion ar draws y cyfryngau print, radio a theledu, oedd yn gryn gynnydd o'i gymharu â 127 eitem newyddion yn 2018-19. O ganlyniad creodd hyn 792,993,343 'cyfle i weld', oedd yn werth £5,982,380 mewn termau hysbysebu.

Defnyddiais y cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu mwy â phobl hŷn a rhanddeiliaid hefyd, ac yn 2019-20 creodd drydar yn ymwneud â fy ngwaith 860,900 o argraffiadau (cyfleoedd i weld trydariad a'i gynnwys), cynnydd o 64% o'i gymharu â 2018-19, 2890 clic ar ddolenni, 2,710 ail-drydariad a 2,940 'hoffi'. Y gyfradd ymgysylltu ar gyfer fy nhrydariadau oedd 1.2% (ystyrir bod cyfradd ymgysylltu rhwng 0.3%-1% yn uchel iawn).

Yn Awst 2019 lansiais hefyd dudalen Facebook i geisio cyrraedd mwy o bobl hŷn drwy'r cyfryngau cymdeithasol (mae 62% o ddefnyddwyr y we 65+ oed yn defnyddio Facebook), gyda phostiadau Facebook yn cyrraedd 98,318 o bobl hyd at ddiwedd Mawrth 2020.

# Rhoi cymorth i bobl hŷn drwy waith achos

Yn 2019-20 rhoddais gymorth i 681 o bobl hŷn naill ai'n uniongyrchol neu drwy aelodau o'r teulu a gysylltodd â'r tîm gwaith achos ar eu rhan. O'r 681 achos hwn, roedd 563 yn achosion newydd a 118 yn rhai a ail-agorwyd i roi cymorth pellach, yn aml ar ôl derbyn tystiolaeth neu wybodaeth newydd.

Mae hyn yn gynnydd o 71% o'i gymharu â'r flwyddyn cynt pryd y derbyniodd 397 o bobl hŷn gymorth gan y tîm gwaith achos.

Mae'n dangos, mae'n debyg, bod mwy o bobl yn ymwybodol o fy rôl a sut y gallaf helpu pobl hŷn, yn ôl polau piniwn a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Dyma rai o faterion penodol y flwyddyn hon:

- Newidiadau i'r cynllun Tocyn Bws Am Ddim a phroblemau'n adnewyddu tocynnau bws
- Hawlio Credyd Pensiwn (yn dilyn dosbarthu taflen wybodaeth a gynhyrchais a oedd wedi'i chynnwys yn y post Tocyn Bws Am Ddim – mwy o fanylion isod).
- Newidiadau i gynllun Nofio Am Ddim Cymru
- Penderfyniad cadwyn fferyllfeydd stryd fawr i godi £5 ar gwsmeriaid am ddosbarthu rhai presgripsiynau

Roedd y rhan fwyaf o'r ymholiadau eraill y tu allan i'r meysydd hyn yn ymwneud â materion ariannol, iechyd a gofal a rhoddir enghreifftiau o'r rhain isod:

## Ariannol

Yn ogystal ag ymchwiliadau'n ymwneud â Chredyd Pensiwn, cysylltodd bobl â fi hefyd am Bwerau Atwrnai Arhosol a'r trefniadau ar gyfer gwneud cais. Cysylltodd nifer o bobl hŷn oedd mewn trafferthion ariannol hefyd, ac yn aml iawn yn methu â fforddio eitemau angenrheidiol a hynny oherwydd eu bod yn byw ar incwm bach a phenodol neu o ganlyniad i golli gwaith neu newid yn eu hamgylchiadau.

## Iechyd

Derbyniais nifer o ymholiadau gan bobl hŷn am wahaniaethu posib ar sail oed yn codi pryderon na allent dderbyn rhai triniaethau a gwasanaethau oherwydd eu hoed, fel sgrinio am ganser y coluddyn, ac y byddai symud at wasanaethau ar-lein yn eu heithrio, gan roi enghreifftiau o systemau apwyntiadau meddyg teulu ar-lein yn unig na allai bobl hŷn gael mynediad atynt.

Codwyd pryderon hefyd am ryddhau o'r ysbyty lle ystyriwyd bod pobl hŷn yn 'feddygol ffit' i gael eu rhyddhau, a hynny ddim yn briodol.

Yn ystod wythnosau olaf 2019-20, derbyniais nifer o alwadau am haint y coronafeirws gyda llawer iawn o bobl hŷn yn gofyn am gyngor neu esboniad ar y canllawiau gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

## Gofal

I was contactCysylltodd nifer o unigolion yn poeni bod eu hanwyliaid yn cael eu cadw yn yr ysbyty'n ddiangen oherwydd nad oedd gofal cartref priodol ar gael. Felly hefyd, codwyd pryderon am bobl hŷn yn cael eu rhyddhau o'r

ysbyty heb becyn gofal cartref boddhaol yn ei le ar eu cyfer.

Rhoddais gymorth hefyd i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gan helpu i ddatrys anghydfod â darparwr gofal neu fater yn ymwneud â ffioedd ychwanegol, ac yn mynnu ar hawliau pobl hŷn pan oedd cartref gofal ar fin cau.

Nod y wybodaeth, cymorth a'r arweiniad a roddir gan y tîm gwaith achos yw grymuso pobl hŷn a'u teuluoedd a'u helpu i ddeall a hawlio eu hawliau. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cymorth fel bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn gallu herio penderfyniadau ac ymarfer cyrff cyhoeddus, gan eu helpu i ddeall eu ffordd o gwmpas systemau, polisïau a phrosesau cymhleth, yn aml mewn amgylchiadau hynod anodd a thrallodus.

Oherwydd bod amgylchiadau pawb sy'n cysylltu â fy swyddfa'n wahanol, mae'r cymorth a'r gefnogaeth a roddir gan y tîm gwaith achos yn cael ei deilwrio i ateb anghenion yr unigolyn ac weithiau, yn enwedig yn yr achosion mwyaf cymhleth, mae'r tîm yn ymyrryd ar ran person hŷn (gyda'u caniatâd).

Mae'r profiadau a'r wybodaeth a dderbyniwn gan bobl hŷn a'u teuluoedd yn rhoi llawer iawn o dystiolaeth i mi am sut y mae polisi'n cael ei droi'n ymarfer ac yn fy nghynorthwyo i adnabod problemau ac enghreifftiau posib lle nad yw hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal a'u mynnu. Gallaf wedyn godi pryderon â chyrff cyhoeddus a galw am weithredu, ac mae hefyd yn helpu i dywys a llywio fy ngwaith a fy mlaenoriaethau.

**Gyda'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu gan y tîm gwaith achos, gallaf hefyd adnabod cyfleoedd i ddosbarthu gwybodaeth ac adnoddau ar faterion allweddol i rymuso a chefnogi pobl hŷn.**

# Gwneud Cymru'r lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn:

# Cyflawni strategaeth a chanlyniadau'r Comisiynydd

# Dileu Rhagfarn a Gwahaniaethu ar Sail Oed

Mae rhagfarn oed yn parhau i fod yn gyffredin iawn mewn cymdeithas ac wrth wraidd llawer o'r problemau a wynebir gan bobl hŷn. Mae'n achosi stereoteipio negyddol, trin yn annheg, diffyg parch a pheidio â chynnal hawliau pobl hŷn.

Yn ogystal â'r effaith y mae rhagfarn oed yn ei gael ar iechyd a lles unigolion mewn amryw o ffyrdd, gall hefyd ddylanwadu'n negyddol ar benderfyniadau cymdeithas fel bo'r gwasanaethau, cyfleusterau a'r cyfleoedd sydd eu hangen ar bobl i heneiddio'n dda yn gallu bod yn anfoddhaol a gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn.

Mae delio â rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oed felly'n eithriadol bwysig i gefnogi pobl hŷn a gwneud gwelliannau cynaliadwy mewn sawl rhan bwysig o'u bywydau.

## Ffocws Strategol 2019-20:

- Cydnabod a deall yn well yr effaith y mae rhagfarn oed yn ei gael ar bobl hŷn a chymdeithas
- Grymuso pobl i herio rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oed
- Sicrhau bod pobl yn gwrando a gweithredu ar leisiau pobl hŷn a bod eu hawliau cyfreithiol yn cael eu mynnu

# Ymgyrch #EverydayAgeism

Lansiais yr ymgyrch #EverydayAgeism ym mis Hydref i dynnu sylw a herio'n bendant y rhagfarn oed a wynebir gan lawer o bobl hŷn drwy Gymru bob dydd.

Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o'r effaith negyddol y mae rhagfarn oed yn ei gael – ar unigolion, yr economi a chymdeithas yn gyffredinol – a newid agweddau fel nad yw rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oed yn cael ei ystyried i fod yn dderbyniol mwyach.

Mae'r ymgyrch wedi annog pobl hŷn a phobl yn gyffredinol i rannu enghreifftiau o ragfarn oed a welsant neu y daethant ar ei draws, fel y gallaf herio a dal i gyfrif unrhyw un sy'n defnyddio iaith rhagfarn oed, yn hyrwyddo stereoteipiau ar sail rhagfarn oed neu sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn. Mae hyn wedi cynnwys:

- Codi pryderon gyda'r BBC am ddefnyddio stereoteipiau rhagfarn oed ac actorion 'wedi eu britho' fel rhan o ymgyrch hyrwyddo.
- Galw ar Blaid Lafur y DU i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau nad yw rhagfarn oed yn atal ymgeiswyr rhag sefyll, gan weithredu ar bryderon a godwyd gan gyn AS.
- Herio erthyglau rhagfarn oed a gyhoeddwyd gan bapurau newydd y Guardian a'r Times.

Gall pobl hefyd fod yn rhan o'r ymgyrch drwy wneud adduned #EverydayAgeism – datgan yn gyhoeddus pa gamau y maent am eu cymryd, bach neu fawr, i wneud eu rhan i drechu rhagfarn oed.

Mae'r aelodau canlynol o Lywodraeth Cymru wedi addunedu – Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AS; Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS; a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates AS – ynghyd â chyrff cyhoeddus a thrydydd sector yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Cymunedau Digidol Cymru, Y Gymdeithas Alzheimer, Gofal a Thrwsio a'r Gymdeithas Strôc.

Ar lefel gymunedol, gwnaed addunedau hefyd gan Gyngor Tref Blaenafon a Chyngor Cymuned Pennard a gan dros 50 o fforymau a grwpiau pobl hŷn ar draws Cymru.

Dyfynnir isod rai o'r addunedau a wnaed, yn disgrifio peth o'r gweithredu a ysbrydolwyd gan yr ymgyrch:

**"Addunedwn i fynd i'r afael ag #EverydayAgeism drwy roi cyfle i bobl hŷn gael dweud eu dweud drwy ein gwaith ymgysylltu. Byddwn yn sicrhau eu bod yn rhan o ddatblygiadau gwasanaeth gan hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb a gwerth pobl hŷn."**

**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

**"Addunedaf i herio iaith nawddoglyd a bychanol."**

**Lisa Trigg, Gofal Cymdeithasol Cymru**

**"Byddaf yn herio rhagfarn oed ble bynnag y'i gwelaf."**

**Vaughan Gething AS, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

I gefnogi'r ymgyrch, rwyf hefyd wedi datblygu amrediad o adnoddau a deunyddiau sy'n herio'r mythau a'r camdybiaethau am bobl hŷn a mynd yn hŷn, ac yn tynnu sylw at fanteision dileu rhagfarn oed, i unigolion a chymdeithas fel ei gilydd. Rhannwyd y rhain yn eang ar y cyfryngau cymdeithasol a gyda chefnogwyr yr ymgyrch, yn sefydliadau ac unigolion.

Rhannwyd negeseuon ac adnoddau'r ymgyrch drwy nifer o sianeli eraill hefyd – drwy areithiau gan brif siaradwyr mewn cynadleddau, digwyddiadau ymgysylltu â phobl hŷn a rhanddeiliaid, ac mewn erthyglau a phostiadau blog – i godi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli gweithredu i ddileu rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oed.

## Astudiaeth Achos: Tîm Bowlio Cartref Gofal yr Hen Ficerdy – Rhoi stop ar ragfarn oed

Sefydlodd gartref gofal yn Llangollen dîm bowlio i herio stereoteipio pobl hŷn a chefnogi ymgyrch #EverydayAgeism y Comisiynydd.

Cynhaliwyd twrnamaint bowlio yn Wrecsam gyda deg o breswylwyr y cartref, llawer ohonynt erioed wedi bowlio o'r blaen, a'r preswylydd hynaf, sy'n 99 oed, oedd yn fuddugol.

Meddai Bethan Mascarenhas, perchennog Cartref Gofal Yr Hen Ficerdy, wrthym:

"Ar ôl i Heléna ddod i Gartref Gofal Yr Hen Ficerdy ar ymweliad, daethom i wybod am ei hymgyrch yn erbyn rhagfarn oed, ac roedd yn taro deuddeg go iawn gyda'r preswylwyr a'r staff.

"Rydym ni yn y cartref yn ceisio edrych ar oed fel dim ond rhif, felly cawsom drafodaeth ar sut orau i gefnogi'r ymgyrch a phenderfynu yn y diwedd ar gystadleuaeth Bowlio Deg!

"Pam ddim, medden ni? Cael tîm at ei gilydd a gofyn i bobl ein herio, a heddiw mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol!"

## Hyfforddiant Gweithredu Yn Erbyn Rhagfarn Oed

Datblygais gwrs hyfforddiant i rymuso pobl hŷn i weithredu yn erbyn rhagfarn oed, yn dilyn ymchwil gennyf wnaeth ddarganfod nad oedd nifer sylweddol o bobl hŷn yng Nghymru – tua un o bob pump – yn teimlo'n hyderus i adnabod na herio rhagfarn oed pe byddent yn dod ar ei draws.

Edrychodd y sesiynau hyfforddiant ar sut i adnabod rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oed mewn gwahanol sefyllfaoedd – fel yn y gweithle, ym maes iechyd, gofal a meysydd eraill, ac yn y cyfryngau – gan helpu'r cyfranogwyr i ddeall sut y gellid herio rhagfarn oed.

Rhoddodd y sesiynau hefyd ddealltwriaeth well i'r cyfranogwyr o'r ddeddfwriaeth y gellir ei defnyddio i herio rhagfarn oed, yn ogystal â'r sefydliadau all roi gwybodaeth, cyngor a chymorth os yw rhywun yn gweld neu'n profi rhagfarn oed.

Darparwyd naw sesiwn i gyd – a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, Wrecsam, Trefynwy a Bangor, lle cafodd gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ei ddarparu – gyda dros gant o gyfranogwyr yn mynychu, a'r rhain yn gymysgedd o bobl hŷn a phobl yn gweithio gyda a thros y bobl hŷn. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn gyda'r cyfranogwyr yn dweud y byddai'r hyfforddiant yn eu helpu i adnabod rhagfarn oed, yn enwedig yn ei ffurfiau mwyaf cynnil, ac y cawsant eu grymuso i herio rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oed.

## Llyfryn Gwybodaeth Gweithredu Yn Erbyn Rhagfarn Oed

I sicrhau y gallai'r negeseuon a'r wybodaeth o'r hyfforddiant Gweithredu Yn Erbyn Rhagfarn Oed gyrraedd a grymuso llawer mwy o bobl hŷn ar draws Cymru, addaswyd cynnwys y cwrs i greu llyfryn gwybodaeth yn cynnwys y wybodaeth sydd ei angen ar bobl hŷn i adnabod a herio rhagfarn oed ynghyd â manylion am ba gymorth a chefnogaeth sydd ar gael lle bo'i angen.

Mae'r llyfryn wedi'i ddosbarthu'n uniongyrchol i bobl hŷn mewn digwyddiadau a sesiynau ymgysylltu gyda chopïau hefyd wedi eu dosbarthu'n eang i sefydliadau a grwpiau pobl hŷn i'w rhannu gyda phobl hŷn ar draws Cymru.

# Rhoi stop ar gam-drin pobl hŷn

Mae miloedd o bobl hŷn yng Nghymru'n cael eu cam-drin – unwaith neu'n gyson, neu ddiffyg gwneud rhywbeth sy'n achosi niwed neu drallod – a allai gynnwys cam-drin corfforol; trais yn y cartref; cam-drin rhywiol; seicolegol neu emosiynol; cam-drin ariannol neu drwy dwyll; cam-drin sefydliadol neu mewn cartref; esgeulustod neu hepgor gofal; a rheoli drwy orfodaeth.

Yn rhy aml hefyd, nid yw'r troseddau hyn yn cael eu hadrodd, a gall rhwystrau yn y system cyfiawnder troseddol atal mynediad at gyfiawnder.

Er bod dealltwriaeth gynyddol o faint a natur cam-drin a throseddu yn erbyn pobl hŷn, mae diffyg data ystyrlon o hyd am faint y broblem yng Nghymru ac mae ymwybyddiaeth ein gwasanaethau cyhoeddus, a chymdeithas yn gyffredinol, o'r problemau hyn yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae codi ymwybyddiaeth o gam-drin a'i effaith ar bobl hŷn felly'n greiddiol os am wella'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin, ac i wella'r gwaith atal gan gyrff cyhoeddus. Law yn llaw â hyn, mae sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad at gefnogaeth lawn ein system cyfiawnder troseddol yn greiddiol i'w hamddiffyn.

## Ffocws Strategol 2019-20

- Cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol, a chymdeithas yn gyffredinol, o gam-drin pobl hŷn
- Gwella mynediad at gymorth i bobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin
- Galluogi mwy o bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin i dderbyn cyfiawnder cyfreithiol
- Atal digwyddiadau o gam-drin pobl hŷn

## Mapio gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin

Dechreuais fapio'r cymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin, i adnabod pa wasanaethau sy'n cael eu darparu mewn gwahanol rannau o Gymru.

Bydd adnabod unrhyw ddiffyg gwasanaeth i bob golwg, lle gallai pobl hŷn efallai fod yn cael trafferth derbyn y cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol, yn helpu i ddangos ble mae angen buddsoddi mewn gwasanaethau ychwanegol, yn enwedig rhai sy'n rhoi cymorth wedi'i deilwrio i bobl hŷn.

## Sesiynau bwrdd crwn atal cam-drin

Trefnais gyfres o sesiynau bwrdd crwn ar gyfer sefydliadau allweddol – yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yr Heddlu, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru, a chyrff cyhoeddus allweddol eraill, yn ogystal â phobl hŷn a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda a thros bobl hŷn – i adnabod pa weithredu sydd angen ei wneud i amddiffyn a diogelu pobl hŷn a pha gyfleoedd sydd ar gael i gydweithio i ddylanwadu ar newid a chyflwyno gwelliannau.

Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf ym Mehefin 2019 i drafod y gweithredu a'r ymarfer da presennol a sut i'w gyflwyno'n ehangach i sicrhau bod pobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin neu esgeuluso'n cael eu hamddiffyn a'u diogelu.

Edrychodd sesiynau pellach, yn Hydref 2019, yn fwy manwl ar fathau penodol o gam-drin – cam-drin ariannol, yn y cartref, esgeuluso a thrin yn wael – gyda ffocws penodol ar adnabod cymhelliad rhywun dros gam-drin person hŷn a sut y gellid mynd i'r afael â hyn i atal cam-drin.

Cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu yn y sesiynau a byddaf yn defnyddio'r canfyddiadau i oleuo'r gweithredu yr wyf am fwrw ymlaen gyda fo i roi stop ar gam-drin pobl hŷn drwy Gymru, ac sydd i'w ddisgrifio yn fy nghynllun busnes 2020-21.

## Ymchwil i benderfyniadau'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn achosion diogelu

Mae gwaith ymchwil ar y gweill i edrych ar sut y gall penderfyniadau gan yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) effeithio ar ymchwiliadau diogelu, a mynediad pobl hŷn at gyfiawnder o ganlyniad, sy'n arbennig o bwysig o ystyried y cyfraddau erlyn ac euogfarnu cymharol isel ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Gyda chymorth yr Heddlu a'r CPS, mae'r tîm ymchwil yn adolygu data a chanlyniadau'n ymwneud â dros 400 o achosion diogelu ar draws y pedwar Heddlu yng Nghymru. Nod yr ymchwil yw adnabod yr heriau a'r rhwystrau a allai fod yn achosi lefelau erlyn isel, a sut y byddai modd gwella ymchwiliadau diogelu.

Bydd yr ymchwil hefyd yn ystyried a yw penderfyniadau a wneir ar draws Cymru'n gyson gan adnabod gofynion hyfforddiant posib, yn ogystal â chyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol. Bwriedir cyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil, ac unrhyw argymhellion gan yr Heddlu a'r CPS, yn 2021.

# Seminarau hyfforddi i weithwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Yn 2019-20, mae fy swyddfa wedi darparu hyfforddiant cam-drin i 853 o weithwyr rheng flaen mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol drwy 27 o sesiynau ar draws Cymru.

Mae'r seminarau'n helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall maint ac effaith y broblem o gam-drin pobl hŷn, a'r ffyrdd penodol y gall cam-drin effeithio arnynt, gan gynnwys beth allai fod yn rhwystro pobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin rhag chwilio am neu gael mynediad at gymorth a chefnogaeth.

Mae'r seminarau hefyd yn rhoi gwybodaeth ymarferol i helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod arwyddion posib o gam-drin a sicrhau y gall pobl hŷn dderbyn y cymorth a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.

I sicrhau bod yr hyfforddiant yn cyrraedd mwy fyth o weithwyr proffesiynol ar draws Cymru, rwyf wedi gweithio â Heddlu De Cymru i ddatblygu modiwl hyfforddiant y gellir ei ddarparu'n fewnol i blismyn a staff. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Dyfed Powys, Heddlu Gwent a Heddlu Gogledd Cymru i drafod datblygu a darparu hyfforddiant tebyg i blismyn yn yr ardaloedd hyn.

# Galluogi Pawb i Heneiddio'n Dda

Mae heneiddio'n dda – 'ychwanegu bywyd at flynyddoedd, nid dim ond blynyddoedd at fywyd' – yn bwysig i bawb, ac i'r wlad i gyd. Dylid gweld pobl hŷn fel rhan hanfodol o gymdeithas gyda chyfle i gymryd rhan a chyfrannu i'n cymunedau a'n heconomi.

Ond mae llawer yn canfod na fedrant wneud y pethau sy'n bwysig iddynt wrth fynd yn hŷn, gan wynebu rhwystrau sy'n gwneud 'heneiddio'n dda' yn anoddach.

Mae gwneud Cymru'n wlad o gymunedau oed-gyfeillgar – lle gall pobl hŷn fynd o gwmpas yn hwylus, fforddio â gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt, byw bywydau iach ac egnïol, gwybod beth yw'r diweddaraf a lleisio barn – yn hanfodol os yw pawb i heneiddio'n dda ac fel bod pobl hŷn yng Nghymru'n teimlo o werth a'u bod yn cael eu cynnwys a'u parchu.

## Ffocws Strategol 2019-20

- Annog a chefnogi sefydlu cymunedau oed-gyfeillgar ar draws Cymru
- Galluogi mwy o bobl hŷn i fynd ble maen nhw eisiau mynd a gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt
- Gwella mynediad pobl hŷn at wasanaethau iechyd er mwyn heneiddio'n dda
- Galluogi mwy o bobl hŷn i gael eu grymuso i gyflwyno newid

# Cymunedau oed-gyfeillgar: Cydnabyddiaeth gan Sefydliad Iechyd y Byd

Rwyf wedi bod yn gweithio ag awdurdodau lleol i symud ymlaen ar waith i wneud cymunedau Cymru'n fwy oed-gyfeillgar gyda'r nod o ennill cydnabyddiaeth oed-gyfeillgar gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

I ennill y gydnabyddiaeth hon, rhaid i awdurdodau lleol fod yn gweithio'n weithredol i wneud eu cymunedau'n fwy oed-gyfeillgar, ar draws wyth maes allweddol a bennir gan y WHO:

- Adeiladau a mannau awyr agored
- Trafnidiaeth
- Tai
- Cyfranogi cymdeithasol
- Parch a chynhwysiant cymdeithasol
- Cyflogaeth a chyfranogi dinesig
- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd

Drwy weithio tuag at fod yn oed-gyfeillgar, gall cynghorau tref, cymuned a sir hefyd ymuno yn Rhwydwaith Byd-Eang y WHO o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar i gysylltu ag arbenigedd ac ymarfer da drwy'r byd.

Cynhaliais gyfres o gyfarfodydd â phrif weithredwyr awdurdodau lleol drwy Gymru i adnabod pa weithredu sydd ei angen i wneud eu cymunedau'n fwy oed-gyfeillgar a sut y gellid addasu'r ymarfer da presennol i gefnogi pobl hŷn yn eu hardal.

Rhoddwyd cymorth ychwanegol i nifer o awdurdodau lleol gan eu helpu i weithio â phartneriaid cymunedol ehangach, fel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ddatblygu cynlluniau lleol fydd yn hollbwysig i gefnogi'r broses o ymgeisio i'r WHO.

I gefnogi mwy ar y broses o ddatblygu a darparu rhaglenni oed-gyfeillgar yng Nghymru, rwyf wedi sefydlu rhwydweithiau heneiddio'n dda rhanbarthol sy'n dod â phartneriaid cymunedol at ei gilydd, gan gynnwys pobl hŷn, i rannu gwybodaeth a syniadau ac adnabod y gweithredu lleol sydd ei angen i hybu'r agenda oed-gyfeillgar.

Rwyf hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr wyth maes wedi eu hadlewyrchu yn Strategaeth y llywodraeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, i sicrhau dull cydgysylltiedig rhwng gweithredu cenedlaethol a lleol er mwyn cyflwyno newid i bobl hŷn.

## Cerdyn Heneiddio'n Dda

Yn 2019-20 dosbarthais tua 7,000 o gardiau Heneiddio'n Dda drwy Gymru. Mae'r cardiau'n cynnwys negeseuon syml y gall pobl hŷn eu defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd i roi gwybod i bobl fod efallai angen cymorth neu help arnynt.

I sicrhau bod y Cerdyn Heneiddio'n Dda'n cael ei adnabod yn eang ac y gall pobl hŷn dderbyn y cymorth angenrheidiol, rwyf hefyd wedi bod yn gweithio â busnesau a phartneriaid cymunedol i hyrwyddo'r cynllun, gan ddosbarthu pecynnau gwybodaeth ac adnoddau i'w cynorthwyo. Mae'r pecynnau'n cynnwys taflenni, posteri a sticeri ffenestri i hybu'r cynllun, yn ogystal ag adnoddau eraill i'w cynorthwyo i fod yn fwy oed-gyfeillgar.

Mae'r cynllun hefyd wedi cael ei hyrwyddo gan Busnes Cymru a fu'n annog busnesau yng Nghymru i gymryd rhan a dangos eu hymrwymiad i gefnogi pobl hŷn.

## Canllawiau ar drafnidiaeth oed-gyfeillgar

Rwyf wedi gweithio gyda grwpiau pobl hŷn, gan gynnwys Cynghrair Pobl Hŷn Cymru a Senedd Pobl Hŷn Cymru, a hefyd gyda sefydliadau a darparwyr trafnidiaeth, i ddatblygu canllawiau i wella profiadau pobl

hŷn o deithio ar fws a gwneud gwasanaethau bws yn fwy oed-gyfeillgar.

Mae'r canllawiau'n disgrifio'r ymarfer da a'r camau y dylai darparwyr trafnidiaeth fod yn eu cymryd i sicrhau y gall pobl hŷn ddefnyddio eu gwasanaethau'n hawdd a diogel i fynd o un lle i'r llall gan ddileu'r heriau a'r rhwystrau a allai fod yn atal pobl hŷn rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Maen nhw wedi eu grwpio o dan bedair prif thema sy'n adlewyrchu gwahanol agweddau ar siwrne person hŷn – aros am fws, derbyn cymorth, teithio ar fws, a lleisio barn.

Mae'r canllawiau wedi eu cymeradwyo gan Bus Users Cymru, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr y DU a Newport Bus gyda'r bwriad o'u cyflwyno yn 2020-21.

Dechreuodd waith hefyd i weld sut y gellid defnyddio'r canllawiau i ddatblygu pecynnau hyfforddiant achrededig oed-gyfeillgar ar gyfer gyrwyr, y gallent eu cyflawni fel rhan o'u hyfforddiant proffesiynol parhaus.

Rwyf hefyd wedi drafftio canllawiau tebyg ar gyfer teithio ar drenau a theithio llesol, fydd yn cael eu cwblhau'n derfynol gyda mewnbwn gan bobl hŷn a rhanddeiliaid yn 2020-21.

## Gwybodaeth ac adnoddau i helpu pobl i heneiddio'n dda

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda phobl hŷn i ddatblygu canllaw ar rymuso a chynorthwyo pobl hŷn i wneud i newid ddigwydd yn eu cymunedau.

Mae'r canllaw'n rhoi gwybodaeth am ystod o bynciau, gan gynnwys lleisio barn, datblygu partneriaethau lleol, gosod amcanion a chynllunio, ymgysylltu â gwleidyddion a chyrff cyhoeddus, a gweithio gyda'r cyfryngau.

Mae'r canllawiau hyn yn cael eu profi gyda phobl hŷn cyn eu cwblhau'n derfynol a'u dosbarthu yn 2020-21.

Rwyf hefyd wedi cynhyrchu fersiynau mwy diweddar o nifer o gyhoeddiadau heneiddio'n dda i roi'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf i helpu pobl i heneiddio'n dda:

- Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw (wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)
- Gwneud Cymru'n genedl o gymunedau oed-gyfeillgar: Canllaw ymarferol i greu newid yn eich cymuned
- Canllaw busnes oed-gyfeillgar

Dosbarthwyd yr adnoddau hyn yn eang drwy Gymru - yn uniongyrchol i bobl hŷn mewn digwyddiadau a sesiynau ymgysylltu a thrwy randdeiliaid a phartneriaid cymunedol.

## Digwyddiadau Heneiddio'n Dda Cymunedol

Bu'r swyddfa'n trefnu a chynnal cyfres o ddigwyddiadau mawr ar draws Cymru i gefnogi unigolion a sefydliadau sy'n gweithio i wella bywydau pobl hŷn i greu newid yn eu cymunedau.

Daeth dros 250 o bobl hŷn a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i'r digwyddiadau hyn, a gynhaliwyd yn y Trallwng, Merthyr, Caernarfon, Treletert (Sir Benfro) ac Abertawe.

Gyda chymysgedd o siaradwyr a sesiynau gweithdy, rhoddwyd gwybodaeth a chyngor ymarferol i'r rhai oedd yno am weithredu'n gymunedol i gefnogi pobl i heneiddio'n dda a sut i wneud y mwyaf o effaith eu gwaith. Roedd y digwyddiadau hefyd yn gyfle i dynnu sylw a hyrwyddo enghreifftiau o ymarfer da, creu cysylltiadau newydd a thrafod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth.

# Annog pobl hŷn i hawlio'r Credyd Pensiwn

Lansiais hefyd ymgyrch i annog pobl hŷn i hawlio'r Credyd Pensiwn, ar ôl i ffigurau ddangos nad yw dros 40% o gartrefi cymwys yn ei hawlio, sy'n golygu na chafodd tua £214m o Gredyd Pensiwn yng Nghymru ei hawlio yn 2018-19.

Rwyf hefyd wedi datblygu taflen wybodaeth yn rhoi gwybodaeth i bobl hŷn am y Credyd Pensiwn a sut i'w hawlio, gan weithio gyda Trafnidiaeth Cymru, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, i ddosbarthu dros hanner miliwn o'r taflenni'n uniongyrchol i bobl hŷn ar draws Cymru, wedi eu postio allan gyda thocynnau bws newydd.

Ochr yn ochr â dosbarthu'r daflen, galwais hefyd ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i weithredu i sicrhau bod pobl hŷn yn deall beth sydd ganddynt hawl iddo ac y medrant dderbyn cymorth lle bo angen i wirio eu bod yn gymwys, ac i hawlio.

Rwyf yn monitro data'r DWP ar y nifer sy'n derbyn y Credyd Pensiwn i benderfynu effaith fy ymgyrch ac i ddangos y gwahaniaeth da y gall ymgyrch fwy, wedi'i harwain gan lywodraeth, ei wneud.

# Ymchwilio ac adolygu: casglu'r dystiolaeth a chreu dadl dros newid

## Adroddiad Cyflwr y Genedl

Cyhoeddais fy adroddiad ar Gyflwr y Genedl ar 1 Hydref, sef Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, ac mae'n dod ag ystod eang o dystiolaeth, ymchwil a data at ei gilydd i roi trosolwg cynhwysfawr ar brofiadau pobl o fynd yn hŷn yng Nghymru.

Edrychodd yr adroddiad ar ystod eang o faterion perthynol i fy mlaenoriaethau strategol – rhoi stop ar ragfarn oed a cham-drin a galluogi pawb i heneiddio'n dda – gan hefyd ystyried sut y gall ffactorau ehangach, fel tlodi a thai a mynediad at wasanaethau a chymorth, effeithio ar bobl ac ansawdd eu bywydau wrth fynd yn hŷn.

Er yn dangos bod sylfeini cryf y gallwn adeiladu arnynt, gyda llawer o bobl hŷn yn teimlo mewn rheolaeth o'u bywydau ac y medrant wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, mae canfyddiadau'r adroddiad hefyd yn dangos yr anghydraddoldeb moel o fewn y boblogaeth hŷn yng Nghymru sy'n arwain at wahaniaethau mawr o ran iechyd a disgwyliad oed rhwng pobl yn yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'n glir bod nifer helaeth o bobl hŷn yng Nghymru'n methu â chael mynediad at y cymorth a'r gwasanaethau sydd ei angen i heneiddio'n dda, ac yn y niwl am eu hawliau.

Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod bylchau difrifol a phryderus yn y data sy'n cael ei gasglu am bobl hŷn, yn enwedig am gam-drin, a allai arwain at dybio nad ydynt yn cael eu heffeithio gan rywbeth er bod y gwrthwyneb yn wir. Rhybuddiodd yr adroddiad bod y bylchau hyn yn cyflwyno risg y gallai pobl hŷn fod yn 'anweledig' i wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau yng Nghymru oherwydd nad ydynt, ar hyn o bryd, yn gallu llwyr ddeall anghenion pobl hŷn a ble y dylid targedu gwasanaethau ac adnoddau.

Mae'r adroddiad yn disgrifio'r newid a'r gweithredu sydd ei angen mewn nifer o feysydd i wella bywydau pobl hŷn a pharhau i wneud cynnydd gyda'r blaenoriaethau a nodaf i fod yn greiddiol i drawsnewid y profiad o fynd yn hŷn yng Nghymru.

Rwyf wedi gweithredu ar nifer o faterion a godwyd yn yr adroddiad:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o ragfarn oed, ei effaith a sut i'w herio, drwy ddarparu sesiynau hyfforddiant a chyhoeddi canllaw gwybodaeth newydd.
- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o gam-drin pobl hŷn, sut i adrodd y broblem a ble i'w gefnogi, gan weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau allweddol.
- Lansio ymgyrch i gael mwy o bobl hŷn yng Nghymru i fynnu eu hawliau ariannol.
- Datblygu cymunedau oed-gyfeillgar ar draws Cymru, gan weithio ag awdurdodau lleol i'w helpu i ddod yn rhan o rwydwaith y WHO.

Galwais hefyd ar gyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n gweithio gyda a thros bobl hŷn i weithio gyda'i gilydd fel bod Cymru'n arwain y ffordd ar ddatrys y problemau a nodir yn yr adroddiad, ac ar gyflwyno newid.

I gefnogi'r dull partneriaeth hwn, trefnais i bobl hŷn, gwleidyddion a rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddod at ei gilydd i ystyried canfyddiadau'r adroddiad a thrafod y ffyrdd mwyaf effeithiol o symud ymlaen gyda fy ngalwad i weithredu.

Fel rhan o'r digwyddiad hwn, aeth panel traws-bleidiol o Aelodau'r Senedd – Dai Lloyd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon; Janet Finch-Saunders AS, [cyn] Weinidog yr Wrthblaid dros Ofal Cymdeithasol, Plant, Pobl Ifanc a Phobl Hŷn, a Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – ati i ddisgrifio'r gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau dan sylw, a sut y gellid gwneud hyn ar lefel genedlaethol a lleol.

Rwyf wedi defnyddio'r adroddiad a'i ganfyddiadau i helpu i dywys fy ngwaith a fy mlaenoriaethau ar gyfer 2020-21, yn y meysydd lle'r wyf yn y sefyllfa orau i weithredu a gwthio am newid, a byddaf yn parhau i fonitro ei fetrigau er mwyn olrhain cynnydd a gwelliannau i bobl hŷn. Mae rhanddeiliaid hefyd yn defnyddio'r adroddiad fel adnodd cyfeiriol ar gyfer eu gwaith ac mae wedi'i ddyfynnu mewn nifer o gyhoeddiadau ac adroddiadau.

## Cludiant ar gyfer gwasanaethau iechyd

Rwyf wedi bod yn edrych ar heriau a rhwystrau posib a wynebir gan bobl hŷn wrth ddefnyddio gwahanol fathau o gludiant i gyrraedd gwasanaethau iechyd, yn dilyn pryderon a godwyd gan nifer o bobl hŷn yn ystod y sesiynau ymgysylltu a thrwy'r gwaith achos.

Er mwyn casglu profiadau pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau wrth galon y gwaith hwn, penderfynais gasglu tystiolaeth dros gyfnod o chwe mis, i ddechrau drwy holiadur (ar gael ar-lein ac fel copi caled) a rannwyd drwy fforymau a grwpiau pobl hŷn ar draws Cymru, gan dderbyn 632 ymateb i gyd.

Ochr yn ochr â'r holiadur, cynhaliwyd hefyd gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a sesiynau grŵp ffocws gyda phobl hŷn ar draws Cymru a fu'n gyfle i gael sgyrsiau a thrafodaethau mwy manwl am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau iechyd.

Rwyf hefyd wedi cynnal cyfarfodydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid fel y gallent rannu eu profiadau o'r polisïau a'r ymarfer sydd yn eu lle, a chyfrannu profiadau'r bobl hŷn y maen nhw'n gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi.

Bydd yr adroddiad ar sail fy nghanfyddiadau'n disgrifio'r heriau a wynebir gan bobl hŷn wrth ddefnyddio gwahanol gludiant i gyrraedd gwasanaethau iechyd, a hefyd yn tynnu sylw at yr ymarfer da sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn mewn rhai rhannau o Gymru.

Bydd yr adroddiad hefyd yn galw ar nifer o gyrff cyhoeddus a sefydliadau i weithredu i sicrhau bod y problemau hyn yn cael sylw a bod pobl hŷn yn gallu cael gafael yn hawdd ar opsiynau cludiant priodol i gyrraedd eu hapwyntiadau iechyd.

## Ymchwil i'r portread o bobl hŷn yn y cyfryngau newyddion

Rwyf wedi gwneud ymchwil i sut y mae pobl hŷn yn cael eu portreadu yn y cyfryngau newyddion, o ystyried rôl ganolog y cyfryngau hyn mewn dylanwadu ar farn ac agweddau pobl.

Yn aml iawn dywed pobl hŷn wrthyf nad yw'r ffordd y portreadir mynd yn hŷn yn y newyddion yn adlewyrchu eu profiadau a'i fod yn aml yn cyflwyno barn gul iawn am sut beth yw bod yn hŷn, rhywbeth yr oeddwn yn awyddus i ymchwilio'n fwy manwl iddo i gynorthwyo fy ngwaith o ddileu rhagfarn oed.

Bu'r ymchwil yn ystyried a yw'r adroddiadau am bobl hŷn a'r materion sy'n effeithio ar

eu bywydau'n tueddu i fod yn gadarnhaol, negyddol neu niwtral, ynghyd â'r math o iaith a ddefnyddir wrth adrodd am bobl hŷn a'r effaith y gall hyn ei gael ar bobl hŷn a chymdeithas yn gyffredinol. Bu'r ymchwil hefyd yn ystyried sut y gall barn ddi-ildio cymdeithas am bobl hŷn, a natur dreiddiol y mythau a'r stereoteipiau, efallai ddylanwadu ar sut y mae pobl hŷn yn cael eu portreadu yn y newyddion.

Roedd y canfyddiadau'n seiliedig ar adolygu dros 200 o erthyglau am bobl hŷn mewn cyhoeddiadau a rhaglenni yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, a archwiliwyd yn fanwl i adnabod yr iaith, themâu a'r delweddau a ddefnyddiwyd yn gyffredin, a'r effaith y gallai'r rhain ei gael ar bobl hŷn.

Yn ôl yr ymchwil, roedd dwy o bob tair erthygl yr edrychwyd arnynt yn portreadu pobl hŷn yn negyddol gan atgyfnerthu stereoteipiau am bobl hŷn fel pobl wael eu hiechyd sydd angen gofal arnynt, fel dioddefwyr a baich ar gymdeithas, a bod lleisiau pobl hŷn yn aml ar goll o'r straeon hyn, gyda sylwadau a dyfyniadau gan randdeiliaid eraill yn siarad ar eu rhan.

Rwyf wrthi'n ystyried sut i ddelio â'r problemau y tynnodd yr adroddiad sylw atynt, yn enwedig sut y gallaf weithio gyda'r cyfryngau a newyddiadurwyr dan hyfforddiant, ar draws Cymru a'r DU, i sicrhau bod y ffordd y portreadir pobl hŷn yn adlewyrchu eu profiadau o fynd yn hŷn yn well a heb atgyfnerthu stereoteipiau negyddol amdanynt.

# Dylanwadu ar bolisi, deddfwriaeth ac ymarfer

## Ymgysylltu â gwleidyddion a swyddogion

Rwyf yn cwrdd ac ymgysylltu'n rheolaidd â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cyfle pwysig i mi ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer, tynnu sylw at bryderon a disgrifio pa welliannau sydd angen eu gwneud. Rwyf hefyd wedi gweithio ag Aelodau'r Senedd i roi gwybodaeth ac i'w briffio cyn trafod materion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Rwyf hefyd wedi gweithio â phwyllgorau Senedd Cymru, yn benodol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, gan rannu gwybodaeth a thystiolaeth a thynnu sylw at feysydd posib i'w craffu a'u hymchwilio.

Yn 2019-20 rhoddais dystiolaeth i'r ymchwiliadau pwyllgor canlynol:

- Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well – Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Ebrill 2019
- Mynediad at Fancio – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Mai 2019
- Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a ddarperir yn yr ystad garchardai i oedolion – Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Mai 2019
- Ymchwiliad i Ofal Ysbyty – Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia, Mehefin 2019
- Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) – Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Awst 2019
- Tlodi Tanwydd – Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Medi 2019

I sicrhau bod anghenion pobl hŷn yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yng ngwaith cyrff a gwasanaethau cyhoeddus, rwyf i a fy nhîm hefyd yn dylanwadu ar bolisi, deddfwriaeth ac ymarfer drwy weithio ag ystod eang o grwpiau arbenigol, byrddau cynghori a phaneli..

## Ymatebion i ymarferion ymgynghori

Rwyf wedi ymateb i ymarferion ymgynghori ar ystod eang o bynciau a materion a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, er mwyn disgrifio sut y dylid llunio polisi ac ymarfer i adlewyrchu anghenion pobl hŷn, mynnu eu hawliau a darparu canlyniadau da iddynt.

Lluniwyd yr ymatebion hyn ar sail profiadau pobl hŷn a gasglwyd mewn digwyddiadau ymgysylltu a thrwy fy nhîm gwaith achos, ac ar sail tystiolaeth ehangach a gasglwyd drwy fy ngwaith parhaus ehangach.

Cyhoeddwyd yr ymatebion ar fy ngwefan fel bod rhanddeiliaid yn gallu defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth i gefnogi eu gwaith a'u hymgyrchoedd.

**Disgrifir fy nhrefniadau rheoli risg yn 2019-20, gyda disgrifiad hefyd o'r ansicrwydd a'r prif risgiau a wynebaf, yn adran Datganiad Llywodraethu'r Adroddiad hwn.**

## Astudiaeth Achos: Gwrthdroi penderfyniad i gynyddu'r oed cymhwyso ar gyfer tocyn bws am ddim

O dan gynigion gan Lywodraeth Cymru, roedd yr oed cymhwyso ar gyfer tocyn bws ar fin cynyddu o 60 i Oed Pensiwn y Wladwriaeth, newid a fyddai wedi effeithio ar hyd at 300,000 o bobl hŷn.

Rwyf yn gyson wedi lleisio fy ngwrthwynebiad i'r cynigion gan dynnu sylw'n arbennig at yr effaith ar bobl hŷn sy'n byw mewn tlodi, menywod a gofalwyr ac yn codi pryderon gyda Gweinidogion a thrwy'r cyfryngau.

Roedd gennyf bryderon penodol am Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r penderfyniad hwn, a oedd fel pe bai'n gwneud nifer o dybiaethau anghywir am yr effaith y byddai'r cynigion yn ei gael ar bobl hŷn, a bod y cynigion yn ymddangos i fod yn anghydnaws ag amcanion polisi ehangach yn ymwneud ag iechyd a lles a'r amgylchedd.

Ysgrifennais at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AS, i godi pryderon am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac ym mis Rhagfyr 2019 cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'r penderfyniad yn cael ei wrthdroi, cyhoeddiad yr oeddwn yn ei groesawu'n frwd.

# Adolygiad o Falans y Cronfeydd wrth Gefn 2019-20

Rwyf yn cael fy nghyllido gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, ond yn gweithredu'n annibynnol arnynt, ac rwyf yn atebol i Senedd Cyrmu o ran defnyddio'r adnoddau cyhoeddus sydd ar gael i mi.

Yn 2019-20, cefais £1,608,000 o gyllid; yn 2018-19, cefais £1,543,000 o gyllid.  Roedd y cyllid yn 2019-20 yn cynnwys dyraniad anghylchol o £20,000 tuag at godi ymwybyddiaeth o argaeledd credyd pensiwn, a £43,000 tuag at y cyfraniadau pensiwn ychwanegol gan Gyflogwyr Gwasanaeth Sifil oedd yn ddyledus y flwyddyn honno.

Roedd y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos mai'r gwariant net ar gyfer 2019-20 yw £1,540,000 (2018-19: £1,518,000).

Roedd £300,000 yn y cronfeydd wrth gefn statudol ar ddiwedd y flwyddyn (2018-19: £232,000). Mae gallu cynnal a rheoli fy nghronfeydd wrth gefn yn allweddol er mwyn sicrhau fy annibyniaeth.

Mae gan gronfeydd wrth gefn rôl bwysig i'w chwarae yn fy null rheoli ariannol cyffredinol ac maent yn rhan annatod o gyflawni fy Nghynllun Strategol 2019-22 yn llwyddiannus.  Maent hefyd yn fy ngalluogi i reoli risg yn effeithiol a pharhau i gyflawni fy nyletswyddau statudol yn wyneb problemau na ragwelwyd, neu nad oedd modd eu rhagweld, boed y rheini'n broblemau ariannol neu'n broblemau cysylltiedig â gwasanaeth.

Yn fy strategaeth cronfeydd wrth gefn, rwyf wedi nodi pedwar rheswm penodol pam rwyf yn cadw cronfeydd wrth gefn:

- Ymateb i unrhyw faterion brys a phwysig nad oedd modd eu rhagweld ac sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn, a allai gynnwys cynnal Archwiliad Adran 10. Mae'n bur debyg y bydd costau ychwanegol o'r fath yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol, ond maent yn anodd iawn eu mesur.

- Cynllunio'n ariannol strategol, gan ganiatáu i mi gronni cyllid ar gyfer gwariant sylweddol wedi'i gynllunio yn y tymor hwy – fel adolygu lleoliad ar gyfer swyddfa – yn ogystal â gallu rheoli llifau gwaith cydredol yn strategol lle gallai'r gwariant cysylltiedig fod yn fwy na fy mhrif ddyraniad gan Lywodraeth Cymru.

- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol a busnes cyffredinol y sefydliad o ddydd i ddydd (y Gronfa Gyffredinol), yn enwedig yr angen i allu ymateb i gostau gweithredu nad oedd modd eu rhagweld ac y byddent yn effeithio ar sefydlogrwydd ariannol y sefydliad fel arall.

- Lliniaru risgiau penodol yn y Gofrestr Risg Strategol a darparu sicrwydd ariannol yn erbyn y risgiau hynny.  Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn fy nghynllun ariannol tymor-canolig gan fod y rhain yn sicr, neu'n debygol iawn, o godi eu pennau.

Roedd £300,000 yn y cronfeydd wrth gefn statudol ar ddiwedd y flwyddyn (2018-19: £232,000). Fodd bynnag, mae'r symiau hyn yn cynnwys arian parod, rhagdaliadau (symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill), symiau sy'n ddyledus i gredydwyr (symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill) a darpariaethau. I ddeall gwerth gwirioneddol y gronfa wrth gefn, dylid ystyried y trafodion canlynol er mwyn sefydlu beth yw'r swm effeithiol o'r gronfa sydd ar gael:

| | | Taliadau i gredydwyr | Dibrisiant a rhagdaliadau | Balans sy'n weddill |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol** | 33 | - | (33) | 0 |
| **Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill** | 53 | - | (53) | 0 |
| **Arian parod** | 363 | (149) | - | 214 |
| **Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill** | (70) | 70 | - | 0 |
| **Darpariaethau a chredydwyr gohiriedig** | (79) | 79 | - | 0 |
| **Cronfeydd** | 300 | 0 | (86) | 214 |

Felly, £214,000 oedd lefel sylfaenol y cronfeydd wrth gefn oedd ar gael ar 31 Mawrth 2020.

Mae'n hollbwysig ystyried y lefel sylfaenol o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn hytrach na'r cronfeydd wrth gefn statudol oherwydd hwn yw'r swm gwirioneddol sydd ar gael i mi i ymateb i unrhyw faterion brys neu faterion nad oedd modd eu rhagweld, i reoli risgiau ac i sicrhau parhad y busnes.

Amlinellwyd fy strategaeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn 2020-21 yn fy Amcangyfrif i'r Gweinidogion a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019. Mae'r amcangyfrif hwn ar gael ar fy ngwefan.


**Dolen i'r wefan: Amcangyfrif y Comisiynydd**

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**22 Hydref 2020**

# Ein Huchafbwyntiau o ran Perfformiad Ariannol

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut mae gwariant wedi amrywio rhwng 2017 a 2020 ac yn rhoi trosolwg o dueddiadau.


## Gwariant Gros ar Adnoddau




Oherwydd natur fy ngwaith, mae rhan sylweddol o'm dyraniad yn cael ei wario ar gostau staff. Mae rhagor o fanylion ynghylch y rhannau o'm gwariant ar adnoddau sy'n amrywio wedi'u nodi isod.

## Costau staff

Yn ystod 2019-20, fe wnaeth Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil gynyddu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr 28% ar gyfartaledd. Arweiniodd hyn at gynnydd o 25% yng nghostau pensiwn fy sefydliad rhwng 2018-19 a 2019-20. Fodd bynnag, cafodd y cynnydd hwn ei reoli drwy ailstrwythuro'r sefydliad yn ffurfiol. Lluniwyd hwn i gynyddu ein heffaith a sicrhau gwelliannau cynaliadwy i bobl hŷn, ond hefyd i leihau'r effaith roedd y cynnydd mewn costau pensiwn yn ei chael ar fy nghyllideb yn gyffredinol.



Mae'r graff yn dangos bod fy ngwariant cyffredinol ar staff o un flwyddyn i'r llall yn gymharol sefydlog.


Fodd bynnag, bydd y gwariant hwn yn parhau i roi pwysau sylweddol ar fy adnoddau oherwydd codiadau cynyddrannol yng nghyflogau gweithwyr a chynnydd mewn costau byw.

# Costau Gweithredol Eraill

## Gwaith rhaglen

Mae fy mlaenoriaethau strategol yn pennu pa waith prosiect sy'n cael ei gynnal. Bydd y gwariant felly'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn a bydd y Cynllun Busnes yn croesi dros sawl blwyddyn ariannol hefyd.

Mae gallu cynnal cronfeydd wrth gefn yn hollbwysig er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy nghynllun strategol yn effeithiol a chynnal adolygiadau yn unol â fy swyddogaethau statudol.




## Rhent

Yn sgil yr adolygiad rhent ym mis Awst 2016, cytunodd y Comisiynydd blaenorol ar gyfnod o bum mlynedd ar gyfer y brydles – o 5 Awst 2018 ymlaen. Pennwyd y rhent taladwy ar gyfer tair blynedd gyntaf y cyfnod, gyda rhent taladwy blynyddoedd pedwar a phump i'w gytuno yn ystod 2021-22. Ar hyn o bryd pennir rhent ar gyfradd hynod gystadleuol.

## Lleoliadau Eraill

Mae costau lleoliadau yn orbenion sy'n gysylltiedig â fy swyddfa yn Adeiladau Cambrian yn uniongyrchol, ac maent yn cynnwys costau fel tâl gwasanaeth, cyfraddau, a chostau rhedeg cyffredinol.  Yn gyffredinol, mae'r costau hyn yn cynyddu yn unol â chwyddiant.

## Technoleg Gwybodaeth (TG)

Roedd fy muddsoddiad parhaus mewn technoleg yn hollbwysig o ran parhad y busnes yn ystod y pandemig Covid-19, oherwydd fe wnaeth hyn alluogi staff i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol o'u cartrefi.

## Costau gweinyddol eraill

Er mwyn arbed costau o fewn fy ngwariant gweithredu cyffredinol, rwyf wedi defnyddio'r Fframwaith Caffael Cenedlaethol, wedi gwneud tendrau ar y cyd â Chomisiynwyr eraill ac wedi ail-negodi contractau gyda'r cyflenwyr presennol. Mae'n annhebygol y gellid gwneud rhagor o arbedion sylweddol yn y maes gwariant hwn.

## Ffioedd proffesiynol

Bydd ffioedd proffesiynol yn dal i amrywio yn y dyfodol, oherwydd mae'n bosib y bydd angen i mi weithredu ar unrhyw faterion pwysig, brys ac annisgwyl sy'n dod i'm sylw. O ystyried maint bach y sefydliad, mae'r pennawd hwn hefyd yn cynnwys gwariant ar weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth a sgiliau arbenigol nad wyf yn eu cadw'n fewnol. Y rheswm am y brig ar y graff uchod yn ystod 2017-18 oedd ein bod yn canolbwyntio ar baratoi i gyflwyno'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data ym mis Mai 2018, a achosodd i'm ffioedd cyfreithiol gyrraedd brig yn ystod y flwyddyn.

## Hyfforddiant


Rwyf yn parhau i roi cyfle i'm staff wella a datblygu eu sgiliau a'u cymwyseddau er mwyn gallu perfformio ar eu gorau wrth gyflawni fy swyddogaethau statudol a'm Cynllun Strategol. Felly, rwy'n sicrhau bod cyllideb hyfforddiant ar gael i'r holl staff.

# Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Rwyf wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Dyma enghreifftiau o'r ffordd rwyf yn gweithredu stiwardiaeth amgylcheddol dda:

## Defnyddio ynni

Fel un o nifer o denantiaid mewn bloc swyddfeydd bach, nid yw'n bosibl bod â rheolaeth lwyr dros y cyfleusterau dŵr a gwres. Fodd bynnag, yn fy swyddfa i mae falfiau rheoli thermostatig ar bob gwresogydd, bylbiau golau LED, a goleuadau sensitif i symudiad mewn rhai mannau yn y swyddfa. Caiff staff ac ymwelwyr eu hannog i ddiffodd goleuadau ac offer pan nad ydynt yn cael eu defnyddio hefyd.




Yn 2019, cafodd yr holl oleuadau yn y swyddfa eu disodli â bylbiau golau LED rhad-ar-ynni. Bydd hyn yn lleihau biliau ynni ac allyriadau yn y dyfodol.

Mae'r graff yn dangos defnydd trydan dros y tair blynedd diwethaf, sy'n dangos gostyngiad o un flwyddyn i'r llall, gyda gostyngiad o 41% rhwng 2017 a 2019.

Yn 2018, newidiais gyflenwad trydan y swyddfa i sicrhau tariff ynni gwyrdd. Mae ein contract gyda British Gas yn sicrhau bod 56% o'r trydan a ddefnyddiwn yn gynaliadwy, o'i gymharu â'r cyfartaledd o 33% yn y DU.

## Allyriadau carbon


Mae gan fy swyddfa dystysgrif sy'n cydnabod ein bod yn gwrthbwyso 7 tunnell o allyriadau carbon deuocsid ar gyfer 2019-20; defnyddir yr arian i gefnogi prosiectau ledled y byd sy'n lleihau allyriadau carbon drwy fesurau osgoi a chynhyrchu ynni glân/adnewyddadwy.

## Defnyddio cerbydau

Mae gen i Gynllun Teithio sydd â'r nod o leihau effaith teithio ar y gweithle. Yn 2018, fe wnes i gynnal arolwg a'r prif ganfyddiadau oedd bod y rhan fwyaf o'm staff yn naill a'i yn cerdded neu yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i deithio i'r gwaith neu i gerdded i gyfarfodydd a digwyddiadau eraill.

# Gwaredu Gwastraff

Rwyf wedi cael gwared â'r holl finiau wrth ddesgiau er mwyn annog staff i ailgylchu cymaint â phosibl. Mae mannau ailgylchu o gwmpas y swyddfa. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, caiff yr holl bapur ei waredu gan ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu gwastraff. Mae gan y swyddfa dystysgrif cyflawniad amgylcheddol sy'n tystio bod ein rhaglen rwygo ac ailgylchu wedi arbed 14 o goed rhag cael eu dinistrio yn 2019-20 (24 yn 2018-19). Rwyf yn parhau i annog staff i gyfyngu ar faint o bapur maent yn ei ddefnyddio, ac mae tystiolaeth o hyn i'w weld oherwydd mae swm y papur sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu yn lleihau'n raddol.




# Cynnyrch

Rwyf yn defnyddio nwyddau papur amgylcheddol-gadarn megis papur ac amlenni wedi'u hailgylchu. Defnyddir cynnyrch glanhau sy'n ecogyfeillgar i lanhau'r swyddfa.

# Addysg

Rwyf wedi ymroi i gynnal sesiynau hyfforddiant addysgol i aelodau staff am faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sut gall gweithwyr gyfrannu yn ystod oriau gwaith a drwy eu bywydau y tu allan i'r gweithle. Yn ystod 2019-20, cynigiais sesiwn bwrpasol i staff yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol er mwyn creu cymdeithas lle gwelir gwerth mewn adnoddau a does dim byd yn cael ei wastraffu.

Mae gwelliant parhaus ein perfformiad cynaliadwyedd wedi cael ei ardystio drwy gadw ein Gwobr Iechyd y Gweithle Bach lefel Aur.

# Caffael

Mae fy mholisi caffael yn cynnwys egwyddorion prynu sy'n nodi bod rhaid i unigolion, pan fyddant yn archebu nwyddau a gwasanaethau, wneud y canlynol ystyried Gwerth am Arian fel cyfuniad delfrydol o gostau oes gyfan – o ran creu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r sefydliad, yn ogystal â budd.

# Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau uwch (y ddyletswydd adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt weithredu eu swyddogaethau yng Nghymru.

Mae'r ddyletswydd adran 6 yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol'.

I gydymffurfio â'r ddyletswydd dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn y camau meddwl a chynllunio busnes cynnar, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal ag yn eu gweithgarwch o ddydd i ddydd.

Mae fy swyddfa yn dod o fewn y diffiniad o awdurdod cyhoeddus o dan delerau'r Ddeddf ac mae gofyniad arnaf i gyhoeddi adroddiad ar sut wnes i gydymffurfio â'r ddyletswydd Adran 6.

**Dolen i'r wefan: Dyletswydd Bioamrywiaeth**

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**22 Hydref 2020**

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad.

Mae'r adran hon yn cynnwys:

Fy adroddiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys manylion am fy Nhîm Rheoli Busnes a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a sut rwy'n dangos ein bod yn cydymffurfio â rheolaeth gorfforaethol dda.

Mae fy Adroddiad ar Staff a Thaliadau yn rhoi gwybodaeth am daliadau uwch reolwyr, fy natgeliad cyflog teg a gwybodaeth am faterion cyflogaeth eraill.

Mae'r Adroddiad Archwilio yn cynnwys barn derfynol ein harchwilydd ar y datganiadau ariannol.

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

## Gweithio yn Swyddfa'r Comisiynydd

Yn ystod 2019-20, roeddwn i'n cyflogi 20.60 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (19.92 yn 2018-19). Roedd y Tîm Rheoli Busnes a oedd yn gweithio gyda mi yn ystod 2019-20 yn cynnwys y canlynol:

Kelly Davies - **Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd**

Katie Holliday - **Pennaeth Cyllid ac Adnoddau**

Er mwyn alinio'r sefydliad â'm blaenoriaethau newydd ar gyfer 2019 - 2022, yn ogystal â chynyddu effaith gwaith y sefydliad a sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol gyda chyllideb ostyngol mewn termau real, cynigiais ailstrwythuro'r sefydliad yn ystod mis Ionawr 2019, gan ymgynghori ar hynny. Cynlluniwyd yr ailstrwythuro hwn i gynyddu ein heffaith a chyflawni gwelliannau cynaliadwy i bobl hŷn. O ganlyniad i'r ailstrwythuro, a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2019, ni chollwyd unrhyw swyddi a doedd dim costau diswyddo cysylltiedig.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu prosesau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol. Yn 2019-20, roedd y pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol. Maent yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, maent hefyd yn ystyried fy nhrefniadau ar gyfer rheoli ac adrodd ac yn cadw golwg feirniadol ar fy ngweithdrefn rheoli risg a rheolaeth ariannol.

Dyma aelodau cyfredol y Pwyllgor Archwilio:

### Steve Harford (Cadeirydd)

**Penodwyd o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2021**
**Penodwyd yn Gadeirydd ym mis Ebrill 2017**



Treuliodd Steve y 18 mlynedd diwethaf o'i yrfa gyda Gyrfa Cymru ac mae wedi ymddeol o'i rôl fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. Yn ystod ei gyfnod gyda Gyrfa Cymru, bu'n cynghori ac yn arwain y gwaith o uno'r chwe Chwmni Gyrfa lleol blaenorol i greu un sefydliad ar draws Cymru gyfan. Wedyn, bu'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i drosglwyddo perchnogaeth Gyrfa Cymru i fod yn is-gorff ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru.

Mae Steve yn Gyfarwyddwr/Ymddiriedolwr Carers Trust De Ddwyrain Cymru ac ef yw Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar hyn o bryd. Mae hefyd wedi cael ei benodi'n aelod o Fwrdd Pensiynau Lleol Cronfa Bensiynau Gwent Fwyaf (Torfaen).

### Steve Milsom

**Penodwyd ar 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2020**



Bu Steve yn was sifil gyrfaoedd yn Swyddfa/ Llywodraeth Cymru am 39 mlynedd, gan gyrraedd yr Uwch-Wasanaeth Sifil fel Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, lle bu'n arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

Ers ymddeol, mae Steve wedi dod yn ymgynghorydd hunangyflogedig ac yn Gydymaith gyda Practice Solutions Ltd

lle mae'n gweithio gyda Chynghorau i wella gofal cymdeithasol i bobl hŷn. Mae Steve yn Gadeirydd ac yn ymddiriedolwr gyda Chynghrair Pobl Hŷn Cymru ac yn ymddiriedolwr yn Age Cymru. Mae hefyd yn is-gadeirydd Fforwm 50+ Caerffili ac yn aelod o Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio – Llywodraeth Cymru.

**Daeth cyfnod Steve yn y swydd i ben ar 31 Mawrth 2020.**

### Phil Davy

**Penodwyd o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2021**



Roedd Phil yn Bennaeth Datblygiad Economaidd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am 10 mlynedd, yn rheoli maes gwasanaeth a oedd yn cynnwys datblygu busnes, twristiaeth, ac adfywio. Ar ôl 43 mlynedd ym maes gwasanaeth llywodraeth leol, fe wnaeth Phil ymddeol o waith amser llawn.

Mae Phil wedi bod mewn sawl rôl cyfarwyddwr anweithredol gyda Gyrfa Cymru, Groundwork Caerffili a Cymorth Cynllunio Cymru.

### Julia Evans

**Penodwyd o 2 Ionawr 2019 tan 31 Rhagfyr 2023**



Enillodd Julia gymhwyster Sefydliad Siartredig y Gymdeithas Cyllid Cyhoeddus yn 1987 a bu'n gweithio yn y sector cyllid cyhoeddus am 35 mlynedd – yn gyntaf fel archwilydd allanol am 20 mlynedd, cyn symud i faes cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus.

Julia oedd Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol) Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) ym mis Ionawr 2014. Cafodd CyngACC ei ailstrwythuro a chafodd ei ailenwi'n Gyngor y Gweithlu Addysg ym mis Ebrill 2015. Fe wnaeth Julia barhau yn ei swydd fel Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, AD a Gwasanaethau Corfforaethol) nes iddi ymddeol o'r swydd honno ym mis Rhagfyr 2018.

# Adrodd Corfforaethol

## Codi pryderon

Ym mis Tachwedd 2016, daeth rôl y Comisiynydd yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y Ddeddf) ar gyfer materion sy'n ymwneud â hawliau a lles pobl hŷn yng Nghymru. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr sy'n chwythu'r chwiban, ar yr amod bod y gweithiwr sy'n cyflwyno'r datgeliad yn credu'n rhesymol ei fod yn berthnasol i gylch gwaith y Comisiynydd a bod yr wybodaeth sy'n cael ei datgelu ac unrhyw honiad a geir ynddi yn wir gan fwyaf.

Prif nod y Comisiynydd yw gwarchod lles y cyhoedd. Nid oes yn rhaid i'r Comisiynydd ystyried p'un ai a yw datgeliad yn gymwys i gael ei amddiffyn dan y Ddeddf, ac ni fydd yn gallu cynnig cyngor ar hyn. Yn y pen draw, tribiwnlys cyflogaeth fyddai'n penderfynu p'un ai a gaiff unigolyn ei amddiffyn dan y Ddeddf ai peidio. Rôl y Comisiynydd yw ystyried y materion a ddatgelir iddo.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'm swyddfa ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law, oherwydd mai dim ond datgeliadau sy'n dod o fewn cwmpas fy swyddogaethau statudol ac o fewn paramedrau fy mhwerau statudol y mae modd i mi ymchwilio iddynt.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu cyfeirio ataf o ganlyniad i fy rôl fel 'person rhagnodedig' yn ystod 2019-20 (2018-19: dim).

## Yr iaith Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i mi ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a hwyluso a hybu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle.

Yn ystod 2019-20, rwyf wedi cydymffurfio â'r holl Safonau ac wedi parhau i ddangos fy ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Rwyf wedi parhau i gymryd pob cam posibl i hyrwyddo'r Gymraeg drwy sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hanes y Gymraeg, cyflogi nifer o staff dwyieithog, darparu gwasanaeth gwaith achos dwyieithog i bobl hŷn, darparu gwersi Cymraeg i bob aelod o staff yn ystod amser gwaith, a gweithredu amgylchedd gweithio dwyieithog.

**Dolen i'r wefan: Safonau'r Gymraeg**

## Cynllun cydraddoldeb strategol

O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i mi lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol blynyddol, ond mae fy ymroddiad i frwydro yn erbyn gwahaniaethu yn ymestyn yn llawer pellach a dyfnach na'r cynllun hwn – mae wrth galon fy nyletswyddau statudol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys Amcanion Cydraddoldeb y byddaf yn eu cyflawni mewn cylchoedd o bedair blynedd.

Fel hyrwyddwr a llais annibynnol dros bobl hŷn ledled Cymru, rydw i'n gwarchod ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn, gan sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod hawliau pobl hŷn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu hamddiffyn a bod gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn cael ei herio.

Yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2020, es ati i gasglu barn pobl hŷn a phobl eraill ar fy Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ar gyfer 2020-24. Cafodd yr adborth ei adolygu ac fe gytunwyd ar yr amcanion terfynol, a fyddai'n cael eu cyhoeddi ar 1 Ebrill 2020. Oherwydd pandemig Covid-19, gohiriwyd cyhoeddi fy Nghynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-24. Bydd yr amcanion yn cael eu hadolygu ymhellach a bydd fersiwn wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi fis Hydref 2020.

**Dolen i'r wefan: Cynllun Cydraddoldeb**

## Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.  Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau.

## Polisi Taliadau

Rwyf yn ceisio cydymffurfio â Chod Talu'n Well Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Y targed yw gwneud taliadau yn unol â thelerau talu y cytunwyd arnynt, neu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfonebau nad oes anghytuno yn eu cylch ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad talu'r flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 99.07% wedi'u talu ar amser (99.35% yn 2018-19). Ni thalwyd llog yng nghyswllt taliadau hwyr.

## Gwybodaeth

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn ac, yn ystod y flwyddyn, rydw i wedi parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Oherwydd bod GDPR wedi dod i rym ar 25 Mai 2018, fe wnaeth Blake Morgan adolygu fy nghontractau a'm polisïau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Cafodd yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eu diweddaru i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ac fe gynhaliwyd sesiwn hyfforddi gyda staff er mwyn codi ymwybyddiaeth.

Mae trefniadau ar waith i warchod diogelwch gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys data personol a ddelir sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran unigolion hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Yn 2019-20, ni chafwyd unrhyw achosion cysylltiedig â diogelwch data (2018-19: dim).

Yn ystod 2019-20, daeth pum cais am wybodaeth i law o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (2018-19: tri cais). Ymatebwyd i bob cais o fewn yr amserlenni penodol.

Cefais hefyd dri chais am fynediad at ddata gan y testun, ac fe ymatebwyd i'r rhain yn unol â'r amserlenni rhagnodedig (2018-19: dim).

## Technoleg Gwybodaeth

Mae fy systemau TG wedi cael eu dilysu'n annibynnol yn 2019-20, ac mae arbenigwyr TG wedi fy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cynllun Cyber Essentials Plus, sef cynllun ardystio seiberddiogelwch a gefnogir gan y llywodraeth sy'n nodi sylfaen dda ar gyfer seiberddiogelwch. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i bum rheolaeth sy'n gallu atal tua 80% o ymosodiadau seiber, os ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn gywir.

## Cofrestri

Rwyf yn cyhoeddi manylion am fy nhreuliau fy hun, yn rhai uniongyrchol a'r rhai a geir ar fy rhan, ar fy ngwefan bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r treuliau hyn ym mhob cyfarfod.

**Dolen i'r wefan: Treuliau'r Comisiynydd**

Rwyf yn cadw cofrestr o'r holl roddion a'r lletygarwch sydd wedi'u derbyn a'u gwrthod, yn rhinwedd fy nyletswyddau swyddogol. Caiff y gofrestr hon ei diweddaru bob chwarter a'i chyhoeddi ar fy ngwefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r treuliau hyn ym mhob cyfarfod.

**Dolen i'r wefan: Y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch**

## Buddiannau arwyddocaol y bwrdd

Mae cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Cyfarwyddwyr ac aelodau Pwyllgorau ar gael ar fy ngwefan.

**Dolen i'r wefan: Y Gofrestr Buddiannau**

## Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod 2019-20 nid oeddwn i nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Rheoli Busnes Strategol, nac unrhyw aelod o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hawliadau treuliau a'r taliadau cyflog arferol.

## Trefniadau archwilio

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 12 Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Cost archwilio cyfrifon 2019-20 yw £14,000 (£14,000 yn 2018-19).

Darparwyd y gwasanaethau archwilio mewnol gan Deloitte yn 2019-20. Yn dilyn ymarfer tendro ar y cyd gyda Chomisiynydd Plant Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, trefnwyd contract newydd a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2021.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac archwilio mewnol ar gael yn rhan o'r Datganiad Llywodraethu.

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn.

## Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**22 Hydref 2020**

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Paratoir y cyfrifon er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, y llifoedd arian a'r newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny. Mae'r adroddiad blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir hwy yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw; a
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu bod y rhain yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Prif Weinidog wedi fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.  Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a dros asedau'r Comisiynydd, fel y'u nodir yn y memorandwm 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru,

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.  Cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi sail dyletswyddau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sut caiff fy ffordd o gyflawni fy nyletswyddau ei llywodraethu a'i rheoli, a sut rwyf i, fel Comisiynydd, yn atebol am yr hyn a wnaf.

Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf 2006, yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa a gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus graffu ar fy nghyfrifon blynyddol.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol o dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dyma ddyletswyddau statudol y rôl:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru;
- hyrwyddo darpariaeth cyfleoedd i pobl hŷn yng Nghymru, gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn;
- annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru;
- cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rwyf fi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fel Corfforaeth Unigol a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn dal cyfrifoldeb personol dros gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad ond gallaf ddirprwyo er mwyn i unrhyw aelod o staff weithredu fy swyddogaethau. Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel y byddai gan gyrff cyhoeddus eraill, mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (Pwyllgor) i'm cynorthwyo drwy ddarparu sicrwydd ynghylch sut caiff y sefydliad ei lywodraethu.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae llywodraethu corfforaethol da yn hanfodol mewn unrhyw sefydliad a reolir yn dda. Mae'r fframwaith llywodraethu rwy'n ei ddilyn yn seiliedig ar systemau, polisïau a phrosesau allweddol y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt.

Mae systemau rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i:

- sicrhau cywirdeb ariannol;
- sicrhau fy mod yn cydymffurfio â'm dyletswyddau statudol; a
- sicrhau fy mod yn nodi, gwerthuso a rheoli risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r rheolaethau hyn wedi eu cynllunio i gynnal y risgiau sy'n wynebu'r Comisiynydd o fewn y lefelau goddefgarwch risg a nodwyd yn y strategaeth Rheoli Risg.

Mae'r systemau rheolaeth fewnol hyn yn gweithio mewn modd integredig, gan adlewyrchu pwysigrwydd dull gweithredu integredig o lywodraethu a rheoli. Dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall y rhain ei ddarparu.

# Fframwaith llywodraethu

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n rhaid i mi enwebu Dirprwy a all gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd os yw'r swydd yn wag, neu os na fyddaf i yn gallu gweithredu unrhyw dro am unrhyw reswm. Kelly Davies, y Prif Swyddog Gweithredu, yw fy Nirprwy enwebedig. Mae cynllun dirprwyo ariannol ar gael yn fy 'Nhrefniadau Archebu Nwyddau a Gwasanaethau'. Mae hwn hefyd ar gael ar fy ngwefan.

Roedd fy fframwaith llywodraethu yn 2019-20 yn cynnwys tair prif elfen o sicrwydd, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Rhaglen archwilio fewnol
- Tîm Rheoli Busnes

Mae'r tair prif ffynhonnell o sicrwydd yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion sy'n berthnasol i Gorfforaeth Undyn o fewn Cod Llywodraethau Corfforaethol y Deyrnas Unedig a'r Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, hynny yw, yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus.

Fel rhan o'u telerau penodi, mae gofyn i holl gyflogeion ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fabwysiadu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan. Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â fy niwylliant a'm gwerthoedd corfforaethol, yn rhoi sail i'm Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i gyflogeion ac aelodau'r Pwyllgor ddilyn y Cod hwn a'i gadw'n gyfredol.

# Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'm cefnogi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wrth fonitro ac adolygu effeithiolrwydd fy systemau llywodraethu corfforaethol, rheolaeth fewnol a nodi a rheoli risg; gan chwilio am sicrwydd ychwanegol drwy archwiliadau mewnol ac allanol. Caiff y Pwyllgor wybodaeth berthnasol, amserol a chywir gennyf i a'm Tîm Rheoli Busnes.

Yn 2019-20, mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol gyda phrofiad sylweddol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn roedd ei aelodaeth fel a ganlyn:

- Steve Harford (Cadeirydd) – cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Gyrfa Cymru. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2016; cafodd ei benodi'n Gadeirydd ar 1 Ebrill 2017.
- Steve Milsom – cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Llywodraeth Cymru. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2016
- Phil Davy – cyn Bennaeth Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerffili. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2017
- Julia Evans – cyn Ddirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol) Cyngor y Gweithlu Addysg. Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 2 Ionawr 2019.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae presenoldeb yn y cyfarfodydd wedi'i nodi isod:

| | Mai 2019 | Gorff. 2019 | Tach. 2019 | Chwef. 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Steve Harford (Chair) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Steve Milsom | ✓ | ✓ | ✓ | X |
| Phil Davy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Julia Evans | X | ✓ | ✓ | ✓ |

Mynychodd pob aelod sesiwn ddatblygu a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2020.

Mae gofyn i mi adolygu a chylchdroi amrywiaeth, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cronnus aelodau fy Mhwyllgor yn rheolaidd, yn unol ag arferion da.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd dau o aelodau'r Pwyllgor wedi cwblhau tymor yn y swydd, sef pedair blynedd. O ganlyniad i hynny, gadawodd Steve Milsom y Pwyllgor ac mae cyfnod Steve Harford fel Cadeirydd wedi cael ei ymestyn am flwyddyn er mwyn ei alluogi i dreulio tymor llawn fel Cadeirydd. Bydd yr estyniad hwn yn sicrhau cysondeb yn y Pwyllgor pan fydd dau aelod newydd yn ymuno ym mis Ebrill 2020. Bydd y ddau aelod ychwanegol yma'n sicrhau bod ehangder gwybodaeth a phrofiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Blynyddol yn cael ei ymestyn ymhellach.

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl ffurfiol, sy'n seiliedig ar ganllawiau arferion gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i sicrhau gwell tryloywder i'n trefniadau llywodraethu.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd i gyfarfodydd blynyddol gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i rannu arferion da a'r hyn sydd wedi'i ddysgu.

Bu aelodau'r Pwyllgor mewn diwrnod datblygu ym mis Chwefror 2020, lle cyflwynodd fy staff a minnau wybodaeth am faterion strategol iddynt. Roedd y sesiwn yma'n cynnig fforwm gwerthfawr lle gallai aelodau'r Pwyllgor roi eu barn ar fy Nghynllun Busnes arfaethedig ar gyfer 2020-21. Roedd hefyd yn rhoi cyd-destun a gwybodaeth ychwanegol iddynt er mwyn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Rwy'n diweddaru aelodau'r Pwyllgor drwy e-bost ar faterion allweddol pan fyddant yn codi, gan gynnwys uwchgyfeirio risgiau i'r Gofrestr Risg Strategol. Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, anfonir papurau gofynnol i aelodau, gan nodi eitemau oddi ar yr agenda bum diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

Eleni, mae'r Pwyllgor wedi trafod amrywiaeth o eitemau, gan gynnwys:

- Cofrestr Risg Strategol
- Adroddiadau Llywodraethu chwarterol y Comisiynydd
- Diweddariad ar gynnydd yn erbyn Cynllun Busnes blynyddol y Comisiynydd.
- Adroddiad blynyddol a chyfrifon
- Amcangyfrif y Comisiynydd ar gyfer 2020/21, gan gynnwys cynllun ariannol tymor canolig y Comisiynydd
- Polisïau allweddol y Comisiynydd, gan gynnwys Gwrth-dwyll a Gwyngalchu Arian a Pholisi Chwythu'r Chwiban
- Cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol a mewnol

- Strategaeth y Comisiynydd, ‘Gwneud Cymru y Lle Gorau yn y Byd i Heneiddio Ynddo’

Mae’r Pwyllgor wedi nodi yn ei Adroddiad Blynyddol, o ganlyniad i’r cyfarfod sydd gan y Pwyllgor gyda’r archwilwyr mewnol ac allanol a lefel sicrwydd yr adroddiadau a gafwyd gan yr archwilwyr, y gall roi sicrwydd i mi nad oes gan yr un tîm archwilio unrhyw bryder ynghylch ansawdd yr wybodaeth a ddarperir gan y Comisiynydd.

O ganlyniad i’w waith yn 2019-20, mae’r Pwyllgor yn fodlon ar lefel gyffredinol yr archwilio mewnol ac allanol.

Bob dwy flynedd, mae’r Pwyllgor yn gofyn i fy archwilydd mewnol (Deloitte) gynnal adolygiad annibynnol o’i effeithlonrwydd gan ddefnyddio Rhestr Wirio’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Effeithlonrwydd Pwyllgorau Archwilio. Cynhelir trafodaethau ag aelodau’r Pwyllgor a minnau fel rhan o’r adolygiad hwn.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod mis Mawrth 2020, a chanfu fod cydymffurfio da â’r rhestr wirio, gan dderbyn nad oedd rhai meysydd yn berthnasol i amgylchiadau penodol y pwyllgor hwn.

Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn ac roedd aelodau’n fodlon iawn â’r papurau cynhwysfawr a ddarparwyd iddynt ar y cyfan, yn ogystal â’r ymgysylltiad gan y Tîm Rheoli Busnes yn y cyfarfodydd. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod, gan ystyried y lefelau uchel o sicrwydd yn yr adroddiadau archwilio ar sicrwydd a roddwyd gan reolwyr, bod y Pwyllgor wedi llwyddo i ganolbwyntio ar helpu’r Comisiynydd drwy broses gefnogi a herio. Cydnabuwyd bod y sesiynau datblygu sy’n cael eu cynnal bob blwyddyn yn ddefnyddiol i aelodau.

Felly, ar gyfer 2019-20, mae’r Pwyllgor wedi dod i’r casgliad ei fod yn parhau i weithredu’n effeithiol ond gan gydnabod rhai cyfleoedd i ymchwilio er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu gwerth i’r Comisiynydd yn ei gwaith.

Yn ogystal ag adolygu ei berfformiad ei hun, mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cyhoeddi datganiad ffurfiol bob blwyddyn sy’n nodi i ba raddau y mae’n fodlon â lefel fy rheolaeth ariannol yn gyffredinol, yn ogystal â phrosesau llywodraethu corfforaethol, adnabod risgiau a rheoli yn ehangach. Ar gyfer 2019-20, mae’r Pwyllgor o’r farn, ar sail canfyddiadau’r archwilwyr a’i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu lefel sylweddol o sicrwydd i mi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn rhai priodol a’u bod wedi bod yn gweithredu’n effeithiol. Caiff adroddiad blynyddol y Pwyllgor ei gyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn fy marn i, mae’r Pwyllgor yn gweithredu’n effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at y systemau rheoli mewnol a fy mlaenoriaethau strategol ehangach.

**Dolen i’r wefan: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

## Archwilio mewnol

Rôl archwiliad mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ran rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae’r sicrwydd mae archwiliad mewnol yn ei roi yn elfen allweddol o’r fframwaith llywodraethu ac yn sicrwydd allweddol sy’n ofynnol gennyf i fel Swyddog Cyfrifyddu.

Mae’r Proffil Risg Strategol yn sail i ffocws gwaith yr archwiliad mewnol ac yn darparu’r dystiolaeth mae’r datganiad sicrwydd blynyddol ar reolaeth fewnol yn seiliedig arni.

Penodwyd Deloitte i ddarparu fy ngwasanaeth archwilio mewnol. Yn ystod 2019-20, fe wnaeth Deloitte adolygu:

- Systemau Ariannol, gan gynnwys y Gyflogres a Threfniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
- Llywodraethu Corfforaethol
- Rheoli Risg

Rhoddwyd sicrwydd sylweddol i fy archwilwyr mewnol ynglŷn â'r holl feysydd a adolygwyd, ac ni wnaed unrhyw argymhellion.

## Tîm Rheoli Busnes

Gweithiais gyda Thîm Rheoli Busnes yn ystod 2019-20, a oedd yn cwrdd yn ffurfiol bob mis. Mae'r Tîm Rheoli Busnes yn adolygu ei arferion gwaith a'i effeithiolrwydd parhaus yn gyson.

Fel grŵp, mae'r Tîm Rheoli Busnes yn cyfrannu at y canlynol:

- asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd;
- datblygu fy nodau strategol a'm Cynllun Busnes blynyddol;
- dyrannu ei adnoddau ariannol, dynol ac adnoddau eraill mewn ffordd effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny; ac
- asesu perfformiad y sefydliad yn gyffredinol yn ôl yr amcanion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredol Blynyddol a chyflawni'r Cynllun Strategol.

Fel Comisiynydd, rwy'n atebol am unrhyw benderfyniad a wneir.

## Rheoli Risg

Mae'r fframwaith risg a rheoli yn cael ei ategu gan y Strategaeth Rheoli Risg ac yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol. Mae'r fframwaith risg hwn yn cydymffurfio â'r prif egwyddorion a amlinellir yn nogfen Llywodraeth EM, Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau (Llyfr Oren), gan ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad.  Ni chafwyd unrhyw adroddiadau bod y sefydliad wedi gwyro oddi wrth y Llyfr Oren.  Mae fy Strategaeth Rheoli Risg yn cydnabod nad yw'n bosibl dileu pob risg, ond caiff risgiau eu cydnabod drwy'r Gofrestr Risg Strategol a'u gostwng i lefel dderbyniol.  Mae'r strategaeth hefyd yn nodi, er fy mod yn atebol am bob risg, bod gan yr holl staff ddyletswydd i nodi risgiau newydd posibl.  Caiff y Strategaeth ei hadolygu bob blwyddyn ac fe gafodd ei hadolygu ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2019.

Mae modd gweld y Llyfr Oren yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/815635/Orange_Book_Management_of_Risk.pdf

Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu nad wyf yn amharod i gymryd risgiau a reolir, yn benodol i gyflawni'r blaenoriaethau yn fy nghynllun strategol.  Byddaf nid yn unig yn ystyried y risg y bydd pethau'n mynd o chwith, ond hefyd yr effaith o beidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio ag elwa ar gyfleoedd o'r fath.  Fodd bynnag, ni fyddaf yn goddef lefel uchel o risg a fyddai'n arwain at fethiant i gydymffurfio â gofynion llywodraethu, dyletswyddau statudol a gofynion cyfreithiol.

Caiff y Gofrestr Risg Strategol ei hystyried wrth nodi blaenoriaethau'r sefydliad, gan gynnwys llunio cynllun ariannol blynyddol a Chynllun Busnes. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn mynd i'r afael â sut byddant yn fy helpu i a'm Tîm Rheoli Busnes i reoli risgiau sylweddol.

Ar gyfer y risgiau strategol rwyf wedi'u nodi, mae archwiliad mewnol wedi gwerthuso effeithiolrwydd yr ymatebion rheoli risg a'r rheolaethau presennol, ac wedi rhoi sicrwydd sylweddol.

Ochr yn ochr â'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, es ati i gynnal asesiad cadarn o'r risgiau a'r heriau presennol a'r rhai sy'n codi yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Arweiniodd y dadansoddiad hwn at ddatblygu fy Nghofrestr Risg Strategol, a gafodd ei roi ar waith ym mis Ebrill 2019.

Gan ddilyn y dadansoddiad hwn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a minnau wedi nodi'r risgiau canlynol:

- Nid ydym yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a safonau llywodraethu cyfreithiol eraill.
- Nid ydym yn cynllunio nac yn rheoli adnoddau'n effeithiol.
- Nid oes gennym Gynllun Parhad Busnes ar waith sy'n effeithiol, yn gadarn ac wedi'i brofi.
- Nid yw staff yn effeithiol yn eu rolau.
- Nid ydym yn cyflawni Cynllun Strategol y Comisiynydd ar gyfer 2019-22 na'r cynllun blynyddol, ac rydym yn methu sicrhau effaith i bobl hŷn.
- Ni chlywir lleisiau pobl hŷn, yn eu holl amrywiaeth, ac ni weithredir arnynt.
- Nid yw pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill yn cefnogi/gweithio gyda'r Comisiynydd.
- Nid oes gan y Comisiynydd gysylltiadau a dylanwad gwleidyddol effeithiol.
- Nid yw'r Comisiynydd yn ymddangos yn annibynnol nac yn ymddangos ei bod yn dal cyrff cyhoeddus i gyfrif yn effeithiol.

Wrth gynllunio ar gyfer yr effaith y gallai Covid-19 ei chael ar y sefydliad, ac wrth aros i'r Llywodraeth gyhoeddi cyfyngiadau symud, rhoddais fy Nghynllun Parhad Busnes ar waith ar 16 Mawrth 2020, a arweiniodd at gau'r swyddfa ac at bob aelod o staff yn gweithio gartref nes rhoddwyd gwybod iddynt fel arall. Cafodd y pandemig effaith arwyddocaol ar fy ngwaith gweithredol a strategol, ac arweiniodd at adolygiad ac ailstrwythuro'r Gofrestr Risg Strategol. Fe wnaeth yr ailstrwythuro sicrhau mai disgrifiad risg 3 "Nid oes gennym Gynllun Parhad Busnes ar waith sy'n effeithiol, yn gadarn ac wedi'i brofi" oedd y risg gyffredinol, ac fe newidiwyd geiriad disgrifiad risg 2 o 'nid yw staff yn effeithiol yn eu rolau' i 'nid yw staff yn effeithiol yn eu rolau, a allai fod wedi newid oherwydd yr amgylchiadau'. Cafodd yr achos, yr effaith, y rheolaethau a'r gweithredoedd wedi'u cynllunio yn y Gofrestr Risg Strategol eu diweddaru hefyd i adlewyrchu'r newid yn yr amgylchedd gweithredu.

Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu'r gofrestr risgiau i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i addasu i'r amgylchedd sy'n newid a bod yr holl risgiau byw yn cael ei rheoli a'r risgiau posibl yn y dyfodol yn cael eu nodi, a bod camau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith.

Mae'r risgiau hyn wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol ac maent yn cael eu trafod yn ffurfiol yn y cyfarfodydd Tîm Rheoli Busnes misol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg chwarterol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael gwybod mewn amser real os bydd unrhyw risg yn cael ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Strategol.

## Codi Pryderon

Mae fy mholisi Codi Pryderon yn nodi sut gall staff chwythu'r chwiban os ydynt yn amau bod drwgweithredu neu beryglon yn y gweithle.  Os bydd fy staff neu eraill fynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol sy'n cynnwys Polisi Codi Pryderon a Pholisi Cwynion.  Cyfeirir unrhyw faterion sy'n ymwneud â rôl y Comisiynydd at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Yn ystod 2019-20, ni ddaethpwyd â'r un pryder i'm sylw i na Chadeirydd y Pwyllgor o dan fy mholisi Codi Pryderon (2018-19: dim).

Yn ystod 2019-20, daeth dwy gŵyn ffurfiol allanol i law o dan y Polisi Cwynion, ac ni chadarnhawyd yr un o'r ddwy (2018-19: 1). Yn ystod y flwyddyn, rhoddais wybod i'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am un gŵyn anffurfiol hefyd (2018-19: dim).

# Adolygiad o Effeithiolrwydd

Yn rhinwedd fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu yn barhaus. Mae gwaith archwilio mewnol, fy Nhîm Rheoli Busnes a sylwadau archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) yn sail i'r gwaith hwn, ac maent wedi'u cynnwys yn y llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, fe wnaeth archwiliad allanol roi sicrwydd sylweddol ynghylch fy systemau rheoli mewnol ac ni wnaeth unrhyw argymhellion. Fodd bynnag, byddaf yn parhau i sicrhau fy mod yn monitro systemau mewnol yn gyson ac yn mynd ati i'w gwella'n barhaus.

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn y datganiad llywodraethu hwn ac, yn fy marn i, mae'r gweithdrefnau a'r strwythurau rheoli mewnol a llywodraethu cyffredinol wedi bod yn briodol o ran cefnogi fy swyddogaethau a'm blaenoriaethau ac wedi gweithio'n effeithiol hyd at ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon.

Mae'r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, a pharatowyd y datganiad yn unol â chanllawiau'r Trysorlys.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**22 Hydref 2020**

# Adroddiad ar staff a thaliadau

## Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy'n pennu fy nghyflog i, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Rwy'n gymwys i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Fi sy'n pennu cyflogau staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Cynhaliwyd yr ymarfer gwerthuso swyddi diwethaf gan sefydliad Adnoddau Dynol allanol yn 2017-18, a aeth ati i asesu disgrifiadau swydd gweithwyr a meincnodi rolau o'r un band yn erbyn ei gilydd i sicrhau tegwch a chydraddoldeb o fewn fy strwythur sefydliadol. Fel rhan o'r ailstrwythuro ym mis Ebrill 2019, cafodd tair swydd newydd eu gwerthuso gan ddefnyddio'r un dechneg meincnodi i sicrhau eu bod ar raddfa briodol yn fy strwythur sefydliadol.

Dyfarnwyd codiadau cynyddrannol i gyflogau staff eraill yn unol â thelerau ac amodau contractau. Cafodd cynnydd o 1% sef costau byw chwyddiant ei ddyfarnu yn 2019-20 (rhoddwyd 1% yn 2018-19).

## Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff ar eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol â thelerau ac amodau a bennir gennyf i. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Oni nodir yn wahanol isod, mae penodiadau'r staff sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn benagored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau'r PCSPS ar oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu mecanweithiau i werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fonitro ar bob cam o'u cyflogaeth gyda'r sefydliad. Rwyf wedi rhoi rhaglen datblygu sefydliad ar waith i wella gallu a gwella lefelau perfformiad cyffredinol.

Byddai terfynu swydd yn gynnar, ac eithrio am gamymddwyn neu ymddiswyddiad, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

# Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau Pensiwn

**(Amodol ar archwiliad)**

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion fy staff uwch a'm buddion pensiwn a thaliadau.

# Cyfanswm unigol y taliad

**(Amodol ar archwiliad)**

Mae'r 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfans arall i'r graddau bod trethiant y Deyrnas Unedig yn berthnasol iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronnwyd ac a wnaed gan y Comisiynydd ac sydd wedi'u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol nac unrhyw fonws.

| **Enw a theitl** | **Cyflog** | | **Pensiwn Buddion (1)** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019-20** £000 | **2018-19** £000 | **2019-20** £000 | **2018-19** £000 | **2019-20** £000 | **2018-19** £000 |
| Heléna Herklots[2]<br>Comisiynydd | 90-95 | 55-60 | 35 | 22 | 125-130 | 75-80 |
| Sarah Rochira<br>Cyn Gomisiynydd[3] | amh. | 15-20 | amh. | 7 | amh. | 20-25 |
| Kelly Davies[4]<br>Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd | 60-65 | 70-75 | 25 | 27 | 85-90 | 95-100 |
| Katie Holliday<br>Pennaeth Cyllid ac Adnoddau[5] | 40-45 | amh. | 20 | amh. | 60-65 | amh. |

[1] Mae gwerth y buddion pensiwn sydd wedi'u cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) yn ogystal â'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai'r (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

[2] Dechreuodd cyfnod Heléna Herklots yn y swydd ar 20 Awst 2018; y band ar gyfer cyflog a oedd yn cyfateb i flwyddyn lawn yn 2018-19 oedd £90-95,000.

[3] Daeth cyfnod Sarah Rochira yn y swydd i ben ar 5 Mehefin 2018; y bandio ar gyfer cyflog a oedd yn cyfateb i flwyddyn lawn ar gyfer 2018-19 oedd £95-100k.

[4] Daeth tymor Sarah Rochira fel Comisiynydd i ben ar 5 Mehefin 2018 a dechreuodd Heléna Herklots yn y swydd ar 20 Awst 2018. Yn ystod y cyfnod interim, cyflawnodd Kelly Davies, fel Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, swyddogaeth y Comisiynydd. Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Kelly Davies am y cyfnod rhwng 5 Mehefin 2018 a 20 Awst 2018 oedd £90-95,000, ac am weddill y flwyddyn y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn oedd £60-65,000.

[5] Penodwyd Katie Holliday yn aelod o'r Tîm Rheoli Busnes ar 1 Ebrill 2019. O'r herwydd, nid oes angen datgelu ei ffigurau tâl cymharol.

# Hawliau Pensiwn

(Amodol ar archwiliad)

| | Pensiwn cronedig ar oed pensiwn ar 31/3/20 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oed pensiwn | CETV ar 31/03/20 | CETV ar 31/03/19 | Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* |
| Heléna Herklots[1]<br><br>Comisiynydd | 0-5 | 0-2.5 | 46 | 17 | 21 |
| Sarah Rochira[2]<br><br>Cyn Gomisiynydd | amh. | amh. | amh. | 174 | amh. |
| Kelly Davies<br><br>Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd | 10-15 | 0-2.5 | 113 | 94 | 10 |
| Katie Holliday[3]<br><br>Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 10-15 | 0-2.5 | 126 | 111 | 8 |

[1] Dechreuodd cyfnod Heléna Herklots yn y swydd ar 20 Awst 2018; nid oedd Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 20 Awst 2018.

[2] Daeth cyfnod Sarah Rochira yn y swydd i ben ar 5 Mehefin 2018

[3] Penodwyd Katie Holliday yn aelod o'r Tîm Rheoli Busnes ar 1 Ebrill 2019. Cyn hyn, roedd yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ers 7 Ebrill 2006

# Hawliau Pensiwn

(Amodol ar archwiliad)

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil o 1 Ebrill 2015 ymlaen – sef Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddion yn ôl cyfartaledd gyrfa gyda phensiwn oed arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw hwnnw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, roedd pob gwas sifil newydd a benodwyd a'r mwyafrif o'r rheini sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfrannu at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: mae tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol a mwy) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Roedd pobl oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i gyrraedd oed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o gyrraedd oed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae'r buddion sydd gan yr holl aelodau sy'n newid i alpha yn PCSPS yn cael eu 'bancio', gyda buddion y rheini sydd â buddion blaenorol yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn sydd wedi'u nodi ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn maent wedi'i ennill yn PCSPS neu alpha - fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur sydd wedi'i nodi yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sydd wedi ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithiwr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio o rhwng 4.6% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alffa. Mae'r buddion o dan y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Gyda'r cynllun premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes dim cyfandaliad awtomatig. Mae Clasurol a Mwy yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun clasurol, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premiwm. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn alpha, mae buddion yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ond bod y pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes raid i'r gweithiwr

gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw tra'n dal i weithio ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oed hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm a clasurol a mwy, 65 ar gyfer aelodau'r cynllun nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn sydd wedi'u nodi ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn maent wedi'i ennill yn PCSPS neu alpha - fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur sydd wedi'i nodi yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer ei bod yn bosib y bydd rhan o'r pensiwn hwnnw'n daladwy o oedran gwahanol).

I gael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ewch i'r wefan, sef: **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i gymar. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Adroddiad Staff

(Amodol ar archwiliad)

| | 2019-20 | | | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | **Staff Parhaol** | **Staff eraill** | **Cyfanswm costau staff** | **Cyfanswm costau staff** |
| Cyflogau | 673 | 109 | 782 | 786 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 63 | 10 | 73 | 74 |
| Costau Pensiwn Eraill | 183 | 27 | 210 | 168 |
| **Is-gyfanswm** | **919** | **146** | **1,065** | **1,028** |
| Costau asiantaeth | 0 | 0 | 0 | 15 |
| **Cyfanswm costau net** | **919** | **146** | **1,065** | **1,043** |

O 1 Ebrill 2019 ymlaen, fe wnaeth cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar gyfer Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil gynyddu o 21% ar gyfartaledd i 28% ar gyfartaledd. Mae'r cynnydd hwn wedi golygu bod costau pensiwn fy sefydliad wedi cynyddu 25%, o £168,000 i £210,000. Yn ystod 2019-20 a 2020-21, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £43,000 ychwanegol i mi er mwyn cyfrannu at y costau hyn.

O fewn costau staff, mae £8,700 (2018-19: £7,518) sy'n berthnasol i dalu pedwar aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Daeth cyfnod swydd un o aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i ben ym mis Mai 2018 ac roedd cyfnod interim o saith mis cyn i aelod newydd ddechrau yn ei swydd, sydd wedi arwain at gynnydd bach mewn costau y gellir eu cymharu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "alpha" yn gynlluniau buddion diffiniedig heb eu cyllido ar gyfer sawl cyflogwr ond nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu canfod beth yw ei chyfran hi o'r asedau a'r dyledion.

Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil **yma**.

Ar gyfer 2019-20, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £204,000 yn daladwy i'r PCSPS (2018-19: £168,000) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2019-20 sydd i'w talu i'r aelod pan mae'n ymddeol, ac nid y buddion a gaiff eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn codi pensiwn.

Gall gweithiwr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniad cyflogwr gwerth £6,000 i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan y cyflogwr o £160, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd salwch yng nghyswllt y gweithwyr hyn.

Roedd cyfraniadau a oedd yn daladwy i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £1,000. Roedd y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw yn £dim.

Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys o dan y pennawd Costau Pensiwn Eraill yn y tabl ar dudalen 36.

## Nifer y Staff

(Amodol ar archwiliad)

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gennyf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch aelodau staff) fel a ganlyn:

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---:|---:|
| **Staff Parhaol** | 16.66 | 15.98 |
| **Staff Achlysurol/Dros Dro** | 0 | 0.55 |
| **Penodiadau Cyfnod Penodol** | 3.94 | 3.39 |
| **Cyfanswm** | 20.60 | 19.92 |

Ar ddiwedd y cyfnod ariannol, roedd nifer yr unigolion gyfwerth ag amser llawn oedd wedi cael eu cyflogi gennyf (gan gynnwys uwch aelodau staff) fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---:|---:|
| **Staff Parhaol** | 15.51 | 14.88 |
| **Staff Achlysurol/Dros Dro** | 0 | 0 |
| **Penodiadau Cyfnod Penodol** | 3.94 | 1.96 |
| **Cyfanswm** | 19.45 | 16.84 |

Yn y tablau uchod, mae'r staff cyflogedig yn cael eu nodi mewn niferoedd sydd gyfwerth ag amser llawn.

# Datgeliad Cyflog Teg

(Amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r taliad cyfan yn cynnwys cyflog yn unig ac nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

| | 2019-20 Cyflog | 2018-19 Cyflog |
|---|---:|---:|
| **Band cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd)** | £90,000 - £95,000 | £90,000 - £95,000 |
| **Taliad cyfan canolrifol** | £33,600 | £33,250 |
| **Cymhareb** | 2.75 | 2.77 |

Roedd tâl band y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £90,000-£95,000 yn 2019-20 (2019-19: £90,000 – £95,000). Roedd hwn 2.75 gwaith yn fwy (2018-19: 2.77) na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £33,600 (2018-19: £33,250). Mae'r newid yn y canolrif gyfwerth ag 1% o'r dyfarniad costau byw a dalwyd i staff yn ystod 2019-20. Mae'r gymhareb wedi lleihau ychydig bach oherwydd mae'r taliadau cydnabyddiaeth cyffredinol i staff wedi cynyddu ar raddfa gyflymach na thaliad cydnabyddiaeth y Comisiynydd.

Yn 2019-20, ni chafodd yr un cyflogai (2018-19: dim) daliadau a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd. Roedd taliadau yn amrywio o £21,800 i £90,000 (2018-19: £21,550 i £90,000).

# Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

**(ddim yn amodol ar archwiliad)**

Mae'r tabl isod yn dangos enillion canolrifol a chymedrig fy staff fesul awr.

| | 31 Mawrth 2020 | | 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Benyw** | **Gwryw** | **Benyw** | **Gwryw** |
| **Cyfanswm canolrifol** | £17.46 | £17.55 | £17.28 | £19.05 |
| **Cyfanswm cymedrig** | £20.66 | £17.38 | £20.89 | £19.42 |

Roedd cyfansoddiad staff fy swyddfa yn ôl rhyw ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn: (Ddim yn amodol ar archwiliad)

**Staff yn ôl rhyw 2019-20**



| Nifer | Canran | |
|---|---|---|
| 14 | 63.6% | Menywod |
| 8 | 36.4% | Dynion |
| 22 | 100% | Cyanswm |

**Staff yn ôl rhyw 2018-19**



| Nifer | Canran | |
|---|---|---|
| 13 | 68.4% | Menywod |
| 6 | 32.6% | Dynion |
| 19 | 100% | Cyfanswm |

**Uwch Reolwyr yn ôl rhyw 2019-20**



| Nifer | Canran | |
|---|---|---|
| 2 | 100% | Menywod |
| 0 | 0% | Dynion |
| 2 | 100% | Cyfanswm |


**Uwch Reolwyr yn ôl rhyw 2018-19**




| Nifer | Canran | |
|---|---|---|
| 2 | 100% | Menywod |
| 0 | 0% | Dynion |
| 2 | 100% | Cyfanswm |

Yn y delweddau uchod, fe nodir y dadansoddiad o'r rhywiau a chyflogau mewn gwir niferoedd, ac maent yn dangos mai menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithlu ac mai ychydig o newid sydd wedi bod yng nghyfansoddiad y staff rhwng 2018-17 a 2019-20.

**Rhyw yn ôl band cyflog 2019-20**




**Rhyw yn ôl band cyflog 2018-19**



## Ystadegau oedran y gweithlu

(Ddim yn amodol ar archwiliad)

**Niferoedd yn ôl oedran ar 31 Mawrth 2020**

| 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ | Heb ddatgelu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4 | 10 | 2 | 5 | 0 | 0 |

## Absenoldeb oherwydd salwch

4.04 diwrnod oedd y gyfradd salwch gyfartalog fesul aelod o staff (8.68 diwrnod yn 2018-19), sy'n llai na chyfradd absenoldeb marchnad lafur y DU, sef 4.40 diwrnod. Yn 2018-19, roedd y gyfradd yn uwch nag yr hoffem iddi fod ac roedd hynny oherwydd bod nifer bach o staff ar absenoldeb salwch tymor hir. Pe bai'r absenoldebau tymor hir, sef rhai sy'n hwy na phedair wythnos, yn cael eu tynnu o'r cyfraddau absenoldeb salwch cyfartalog, 5.22 diwrnod fyddai'r gyfradd ar gyfer 2018-19. Doedd dim cyfnodau o absenoldeb tymor hir yn ystod 2019-20.

Rwyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Mae fy staff a minnau wedi ymrwymo i gefnogi'r Ddeddf Cydraddoldeb yn llawn ac i wneud ymdrech i ymgorffori'r Ddeddf ym mhopeth y mae'r sefydliad yn ei wneud. Rwyf wedi ymroi i gyfle cyfartal ac yn ceisio cyflogi gweithlu amrywiol. Caiff pob cais ei ystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail ei allu, ei gymwysterau a'i addasrwydd ar gyfer y gwaith.

Rwyf yn sylweddoli bod gwahaniaethu o unrhyw fath yn annerbyniol ac rwyf wedi ymroi i hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb. Rwyf wedi ymroi i sicrhau amgylchedd gweithio sy'n rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu a gwneud yn siŵr bod pob aelod o staff yn cael ei drin yn deg, gyda pharch ac urddas.

Rwyf wedi ymroi i roi cyfleoedd cyfartal i'r holl staff sy'n cael eu cyflogi gennyf ar hyn o bryd ac unrhyw ddarpar ymgeiswyr. Ni fydd unrhyw aelod o staff nac unrhyw ymgeisydd am swydd yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred, anabledd, oed, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, nac unrhyw ystyriaeth berthnasol arall, ac ni fydd unrhyw unigolyn yn cael ei roi dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos eu bod yn gyfiawn.

## Polisïau staff yng nghyswllt gweithwyr anabl

Ar gais, byddem yn darparu gwybodaeth recriwtio mewn fformat gwahanol, fel print bras, Braille neu'n electronig. Mae ceisiadau am swyddi hefyd yn cael eu derbyn mewn fformatau gwahanol. Byddwn yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yng nghyswllt y trefniadau ar gyfer y cyfweliad, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn yr iaith o'u dewis.

Byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, lle byddai modd, i atal pobl anabl rhag bod dan anfantais.  Mae hyn yn berthnasol i gyfweliadau a threfniadau ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n ymuno â'r sefydliad, ac ar gyfer aelodau presennol o staff sy'n dychwelyd i weithio ar ôl anaf neu salwch hefyd.

## Effaith Covid-19 ar arferion gweithio cyflogeion

Wrth i effaith bosibl pandemig Covid-19 ddod i'r amlwg, rhoddais wybod i fy staff y byddai'r system oriau hyblyg yn cael ei rhewi ar y diwrnod y gwnes i gau'r swyddfa'n ffurfiol: 17 Mawrth 2020.  I ddechrau, fe wnaeth hyn alluogi staff i addasu i'w trefniadau gweithio newydd a'u helpu nhw i gael cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith mewn pandemig byd-eang.

Mae'r holl staff wedi cynnal hunanasesiad DSE o'u hardal waith ac rydw i wedi mynd ar drywydd unrhyw broblemau a nodwyd i sicrhau bod ganddynt yr offer angenrheidiol i allu gweithio'n effeithiol gartref.

O 20 Mawrth ymlaen, roedd cyfarfodydd tîm ar gyfer yr holl staff yn cael eu cynnal bob pythefnos i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am faterion gweithredol fel cynllunio gwaith ac adnoddau dynol, yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau. Caiff sesiynau 'galw am sgwrs' eu cynnal bob wythnos hefyd, sy'n rhoi cyfle i staff rannu eu profiadau a helpu i reoli eu llesiant.

Mae'r adborth ar y cymorth rydw i wedi'i ddarparu i staff yn ystod y cyfnod eithriadol hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi cael ei groesawu.

## Buddion i weithwyr

Rwyf hefyd yn helpu gweithwyr i gadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd drwy weithredu system amser hyblyg a rhoi cyfleoedd i weithwyr gael patrymau gwaith hyblyg.

Yn dilyn ailasesiad ym mis Mai 2018, daliodd y sefydliad ei afael yng Ngwobr Aur Iechyd y Gweithle Bach, sy'n ddilys am dair blynedd.  Mae Gwobr Aur Iechyd y Gweithle Bach yn cyfrannu at fy nghydnabod fel cyflogwr rhagorol ac yn galluogi staff i berfformio i'r lefel uchaf bosibl.

Rwyf wedi parhau i sicrhau bod rhaglen iechyd a llesiant gynhwysfawr yn cael ei darparu drwy gydol y flwyddyn i'r holl staff, gan ddarparu gwybodaeth fisol am wahanol bynciau iechyd a llesiant fel iechyd meddwl, cyflyrau'r galon a chylchrediad, hydradu, ymwybyddiaeth o faint o siwgr rydych chi'n ei fwyta a buddion beicio a chadw'n heini.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr holl weithwyr gyfle i fynd i sesiynau hyfforddiant tîm oedd yn ymwneud â materion fel oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl, therapi maethegol, a phwysigrwydd dim gwastraff.

Yn ystod 2019-20, fe wnes i ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i bob gweithiwr gael hyfforddiant iaith Gymraeg, wedi'i ariannu'n llawn gan y sefydliad.  Mae cyfanswm o 11 aelod o staff (50% o'r sefydliad) wedi manteisio ar y gwersi Cymraeg mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys sesiynau wythnosol gyda thiwtor yn y swyddfa, mynychu dosbarthiadau allanol, hyfforddiant ar-lein, a mynd i gwrs preswyl dwys.

Mae gennyf Raglen Cymorth i Weithwyr sy'n gyfrinachol ac am ddim i bob aelod o staff.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae buddion megis Cynlluniau Talebau Gofal Plant a Beicio i'r Gwaith ar gael iddynt hefyd.

Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae'r achrediad hwn yn golygu bod pob aelod o staff yn y sefydliad yn ennill y Cyflog Byw o leiaf. Mae'r Cyflog Byw yn seiliedig ar gost byw yn y Deyrnas Unedig.

Does dim achos wedi bod lle bu'n rhaid i mi negodi ag undeb llafur ar ran staff ac nid wyf wedi cael fy hysbysu bod unrhyw weithwyr yn aelodau o undeb llafur ar hyn o bryd.

## Ymgysylltu â Gweithwyr

Ar ôl fy mhenodiad, cefais gyfarfod â'r holl staff yn unigol ac rwy'n parhau i gynnal cyfarfod â'r holl staff newydd fel rhan o'u proses gynefino.

Rwy'n ymgysylltu â'r holl staff ac maen nhw'n cael y cyfle i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd a'u hamgylchedd gweithio a dylanwadu arnynt.  Rhoddir polisïau newydd gerbron y staff er mwyn cael adborth arnynt ar ôl iddynt gael eu llunio.

Mae'r polisïau ar gyfer gweithwyr yn cael eu hadolygu bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, fel y bo hynny'n briodol. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i bolisi, bydd yn cael ei rannu â'r holl staff er gwybodaeth neu er mwyn iddynt roi sylwadau.  Mae pob polisi yn cael ei asesu ar gyfer ei effaith ar gydraddoldeb pan gaiff ei gyflwyno neu os gwneir newidiadau sylweddol iddo.

Mae cyfathrebu yn rhan annatod o ddiwylliant fy swyddfa. Yn ystod 2019-20, fe wnes i gynnal cyfarfodydd tîm yn fisol ac yn ystod y cyfarfodydd hyn, fe roddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i staff am faterion yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol, datblygiad y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn a'r cyfle i drafod a rhannu gwybodaeth. Mae dau hysbysfwrdd yn y swyddfa ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff.  Mae un o'r rhain wedi'i neilltuo ar gyfer ein hagenda lles gweithwyr sydd â chyswllt â'r Rhaglen Iechyd Gweithle Bach.

Yn ystod 2019-20, fe wnes i hefyd gydweithio â staff ar ddyluniad ein gwerthoedd a'n hymddygiadau sefydliadol.

## Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres

Nid oedd unrhyw gyflogiadau heb fod ar y gyflogres yn ystod 2019-20 na 2018-19.

## Gwariant ar Wasanaethau Ymgynghori

Ni chafwyd unrhyw wariant ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2019-20 na 2018-19.

## Iawndal am Golli Swydd

(Amodol ar archwiliad)

Ni wnaed taliadau iawndal yn 2019-20, nac yn 2018-19.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**22 Hydref 2020**

# Y Dystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a'r Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan Safonau Cyfrifyddu'r Undeb Ewropeaidd.

**Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:**

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac o'i gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

### Sail y Farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n ymdrin â chyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw [y Swyddog Cyfrifyddu diwygiwch fel y bo'n briodol] wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ynglŷn â gallu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar y wybodaeth arall.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig  a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn berthnasol anghywir, neu'n berthnasol anghyson, ar sail yr hyn a ddysgais wrth gyflawni'r archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol posibl, byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Barn am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

# Adroddiad ar ofynion eraill

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru] a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Adroddiad ar Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a pharatowyd yr Adroddiad ar Berfformiad ac Adroddiad ar Atebolrwydd yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

## Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad, Adroddiad ar Atebolrwydd arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol neu'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan Gweinidogion Cymru ynglŷn â thaliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

# Cyfrifoldebau

## Cyfrifoldebau'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o ran y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed oddi tani, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gallai fod yn rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y mae defnyddwyr yn eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Rwyf yn [gorfod] cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**04 Tachwedd 2020**

Audit Wales // 24 Heol y Gadeirlan // Caerdydd, CF11 9LJ

*Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynhaliaeth a chywirdeb gwefan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; nid yw'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan archwilwyr yn rhoi ystyriaeth i'r materion yma, ac felly, nid yw'r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno yn wreiddiol ar y wefan.*

# Datganiadau Ariannol

## Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | 2019-20<br>£ 000 | 2018-19<br>£ 000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 2 | 1,065 | 1,043 |
| Gwariant Gweithredol Arall | 3 | 462 | 461 |
| Dibrisiant / Amorteiddiad | 3 | 13 | 14 |
| Cyfanswm y Gwariant Gweithredol | | 1,540 | 1,518 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **1,540** | **1,518** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus ac nid oes enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2018-19 na 2019-20.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | | 31 Mawrth 2020 | | 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £ 000 | £ 000 | £ 000 | £ 000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Offer cyfrifiadurol | **4** | 11 | | 15 | |
| Offer swyddfa | **4** | 12 | | 1 | |
| Gwelliannau prydles | **4** | 3 | | 4 | |
| Asedau anniriaethol | **5** | 7 | | 11 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | 33 | | 31 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **6** | 53 | | 55 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | **7** | 363 | | 300 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | 416 | | 355 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 449 | | 386 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **8** | (70) | | (72) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | (70) | | (72) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol** | | | 379 | | 314 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | **9** | (78) | | (78) | |
| Credydwr gohiriedig | **10** | (1) | | (4) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | (79) | | (82) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **300** | | **232** |
| Ecwiti trethdalwyr | | | 300 | | 232 |
| **Cronfa wrth gefn gyffredinol** | | | **300** | | **232** |

**Heléna Herklots CBE**
**Older People's Commissioner for Wales**
**22 October 2020**

# Datganiad o'r Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | 31 Mawrth 2020<br>£ 000 | 31 Mawrth 2019<br>£ 000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net | | (1,540) | (1,518) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | **3** | 13 | 14 |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **6** | 2 | 1 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **8** | (2) | (26) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn Credydwr gohiriedig | **10** | (3) | (1) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(1,530)** | **(1,530)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | **4** | (14) | (10) |
| Prynu asedau anniriaethol | **5** | (1) | (2) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(15)** | **(12)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 1,608 | 1,543 |
| **Cyllid net** | | **1,608** | **1,543** |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod am y cyfnod** | | **63** | **1** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | **7** | **300** | **299** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | **7** | **363** | **300** |

# Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | |
|---|---|---|
| | **1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020** | **1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019** |
| | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 232 | 207 |
| Gwariant net | (1,540) | (1,518) |
| Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig | (1,308) | (1,311) |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 1,608 | 1,543 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **300** | **232** |

# Nodiadau i’r Cyfrifon

## 1. Datganiad polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2019-20. Mae’r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y’u haddaswyd neu y’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle y mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Nodir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy’n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i’r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn costau hanesyddol. Nid yw’r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw ased gan nad oedd unrhyw addasiad ailbrisio yn berthnasol ym marn y Comisiynydd.

### 1.3 Asedau Anghyfredol

Cynhwysir asedau anghyfredol ar eu cost, oherwydd, ym marn y Comisiynydd, byddai unrhyw addasiad sy’n codi o ailbrisio yn amherthnasol. Mae pob ased anghyfredol yn eiddo i’r Comisiynydd.

### 1.4 Asedau Anghyfredol Diriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol diriaethol yw £1,000 gan gynnwys TAW anadferadwy. Delir teitl pob eiddo gan y Comisiynydd. Mae’r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles. Nid yw asedau anghyfredol diriaethol eraill wedi’u hailbrisio oherwydd, ym marn y Comisiynydd, ni fyddai’r symiau dan sylw’n berthnasol.

### 1.5 Asedau Anghyfredol Anniriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol anniriaethol yw £1,000 gan gynnwys TAW anadferadwy. Caiff trwyddedau meddalwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth eu cyfalafu fel asedau anghyfredol anniriaethol a’u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (pedair blynedd fel arfer).

### 1.5 Dibrisiant / Amorteiddiad

Darperir dibrisiant / amorteiddiad ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu’r asedau anghyfredol diriaethol drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol yn ôl amcangyfrif. Caiff dibrisiant ei ddarparu o’r dyddiad mae oes ddefnyddiol yr ased yn dechrau.

Fel arfer, mae oes asedau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri hyd at uchafswm o 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 5 blynedd |
| Offer cysylltiedig â TG | 4 blynedd |

### 1.6 Incwm, cyllid a gwariant

Daw prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru ar ffurf dyraniad cyllid blynyddol.

Os yw cyfrifyddu yn seiliedig ar groniadau, mae'n golygu bod yr incwm a'r gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan mae taliadau arian yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd ar waith yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a nodiadau cysylltiedig.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gyda TAW wedi'i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol, gan nad oes modd adfer TAW.

### 1.7 Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn galluogi'r Comisiynydd i reoli risg yn effeithiol a sicrhau parhad busnes, yn ogystal â pharhau i gyflawni ei dyletswyddau statudol yn wyneb problemau na ragwelwyd, neu nad oedd modd eu rhagweld, boed y rheini'n broblemau ariannol neu'n broblemau cysylltiedig â gwasanaeth.

### 1.8 Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido.

### 1.9 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'n gynllun buddion diffiniedig heb ei gyllido ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil **http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/**

### 1.10 Tâl Prydlesi Gweithredol

Mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel treuliau ac yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### 1.11 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu gontractiol lle mae'r amseriad neu'r swm yn ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

Mae darpariaeth dadfeiliadau'r Comisiynydd yn cynrychioli amcan o'r costau y bydd y Comisiynydd yn eu hwynebu er mwyn talu am ei heiddo ar brydles ar ddiwedd y brydles. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ddarparu gan ddefnyddio amcan o gostau gan gontractwr lleol.

### 1.12 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Roedd y Comisiynydd wedi tynnu arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân hefyd yn swyddfa'r Comisiynydd.

### 1.13 Buddion Cyflogeion

Cydnabyddir cyflogau a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogeion presennol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau'r gweithwyr gael eu cyflawni. Mae'r Comisiynydd yn rhoi cyfrif am wyliau blynyddol â thâl fel rhwymedigaeth lle disgwylir i'r iawndal am absenoldeb gael ei setlo o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r gweithwyr yn cyflawni eu gwasanaeth

**Safonau cyfrifyddu wedi'u cyhoeddi, ddim ar waith eto:**

Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd IFRS 16 – Prydlesi, ac mae ar waith ar gyfer cyfnodau blynyddol yn dechrau ar 1 Ionawr 2021 neu ar ôl hynny.  Bydd y safon gyfrifyddu hon yn berthnasol o 2021-22 ymlaen ac nid oes modd ei amcangyfrif yn rhesymol ar hyn o bryd.

Mae'r weithred o roi'r safon hwn ar waith wedi cael ei gohirio ar gyfer 2020-21 oherwydd Covid-19.

Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon prydlesi presennol IAS 17 a bydd angen i'r lesddeiliad gydnabod asedau ac atebolrwydd am brydlesi â thymor hwy na 12 mis oni bai fod gwerth yr ased sylfaenol yn isel. Bydd angen i lesddeiliad gydnabod ased hawl-i-ddefnyddio gan gynrychioli ei hawl i ddefnyddio'r ased sylfaenol a brydlesir ac atebolrwydd prydlesu sy'n cynrychioli ei rwymedigaeth i wneud taliadau prydles. O ganlyniad i hyn, mae lesddeiliad hefyd yn cydnabod bod yr ased hawl-i-ddefnyddio yn dibrisio a bod llog ar yr atebolrwydd prydlesu, yn ogystal â dosbarthu ad-daliadau arian parod yr atebolrwydd prydlesu i mewn i brif gyfran a chyfran llog. Mae hwn yn newid sylweddol yn y broses gyfrifyddu ar gyfer prydlesi a bydd yn cael effaith wirioneddol ar Ddatganiadau Ariannol cyfrifon y Comisiynydd.

## 2. Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2019-20 | | | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | **Staff Parhaol** | **Staff eraill** | **Cyfanswm costau staff** | **Cyfanswm costau staff** |
| Cyflogau | 673 | 109 | 782 | 786 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 63 | 10 | 73 | 74 |
| Costau Pensiwn Eraill | 183 | 27 | 210 | 168 |
| **Is-gyfanswm** | **919** | **146** | **1,065** | **1,028** |
| Costau asiantaeth | 0 | 0 | 0 | 15 |
| **Cyfanswm costau net** | **919** | **146** | **1,065** | **1,043** |

## 3. Gwariant Gweithredol Arall

Mae gwariant gweithredol arall yn cynnwys:

| | Nodyn | **2019-20** | **2018-19*** |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** |
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | | 71 | 67 |
| Costau eraill o ran adeiladau | | 78 | 66 |
| Technoleg gwybodaeth | | 59 | 54 |
| Ffioedd proffesiynol | | 43 | 48 |
| Hyfforddiant a datblygu | | 15 | 11 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 11 | 15 |
| Ffioedd archwilio – Archwiliad mewnol | | 7 | 7 |
| Ffioedd archwilio – Archwiliad allanol | | 14 | 14 |
| Rhaglenni Penodol | | 112 | 132 |
| Costau gweinyddol eraill | | 52 | 47 |
| | | **462** | **461** |
| Eitemau anariannol: | | | |
| Dibrisiant | 4 | 8 | 9 |
| Amorteiddiad | 5 | 5 | 5 |
| | | **13** | **14** |
| **Cyfanswm** | | **475** | **475** |

*ffigurau 2018-19 wedi'u hailddatgan

Caiff datgeliad pellach o Wariant Gweithredu Arall ei ddarparu yn yr adran ar Uchafbwyntiau Perfformiad Ariannol.

**Rhaglenni Penodol**

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o wariant fy rhaglen waith yn ystod blwyddyn gyntaf fy nghynllun strategol newydd, 'Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo  Rwyf hefyd wedi datgelu'r gwariant ar fy adroddiad Cyflwr y Genedl.

| **Maes blaenoriaeth strategol** | **£000** |
|---|---|
| Rhoi Diwedd ar Oedraniaeth a Gwahaniaethu ar Sail Oedran | 34 |
| Atal Cam-drin Pobl Hŷn | 17 |
| Galluogi pawb i Heneiddio'n Dda | 47 |
| Cyflwr y Genedl | 14 |
| **Cyfanswm** | **112** |

Nid yw'r gwariant a ddatgelwyd uchod yn cynnwys dosrannu unrhyw gostau cyflog staff y Comisiynydd, ac mae'n adlewyrchu costau uniongyrchol ychwanegol yn unig.

## 4. Asedau Anghyfredol Diriaethol

| | Offer Cyfrifiadurol £000 | Offer Swyddfa £000 | Gwelliannau Prydles £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 34 | 37 | 279 | 350 |
| Ychwanegiadau | 1 | 13 | 0 | 14 |
| Gwarediadau | 0 | (18) | 0 | (16) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **35** | **32** | **279** | **348** |
| Dibrisiant ac Amhariad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 19 | 36 | 275 | 330 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 5 | 2 | 1 | 8 |
| Gwarediadau | 0 | (18) | 0 | (16) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **24** | **20** | **276** | **322** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020** | **11** | **12** | **3** | **26** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019 | 15 | 1 | 4 | 20 |

Ni amharwyd ar asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

## 5. Asedau anghyfredol anniriaethol

| | Trwyddedau Meddalwedd | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost neu brisiad | | | |
| Fel yr oedd pethau ar 1 Ebrill 2019 | 46 | 67 | 113 |
| Ychwanegiadau | 0 | 1 | 1 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **46** | **68** | **114** |
| Amorteiddiad | | | |
| Fel yr oedd pethau ar 1 Ebrill 2019 | 46 | 56 | 102 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 5 | 5 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **46** | **61** | **107** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020** | **0** | **7** | **7** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019 | 0 | 11 | 11 |

## 6. Symiau masnach derbyniadwy

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 0 | 0 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 53 | 55 |
| | **53** | **55** |

Rhagdaliad yw swm sy'n cael ei dalu ymlaen llaw, fel arfer am eitemau fel cyfraddau neu rent. Caiff ei gydnabod fel ased i ddechrau ac fe gaiff ei osod fel treuliau yn y cyfnod pan mae'r buddiant yn cael ei dderbyn.

Nid oedd symiau masnach derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn.

## 7. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 300 | 299 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | 63 | 1 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **363** | **300** |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 7 | 139 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 356 | 161 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **363** | **300** |

## 8. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau masnach taladwy | 9 | 2 |
| Croniadau | 61 | 70 |
| | **70** | **72** |

## 9. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 78 | 78 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **78** | **78** |

Gwneir darpariaeth ar gyfer ailaddurno/dadfeiliadau yn y swyddfa yn ystod cyfnod y brydles ac ar derfyn y brydles. Yn unol ag IAS 37, caiff y ddarpariaeth hon ei hadolygu bob blwyddyn.

## 10. Credydwr gohiriedig

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill | 4 | 5 |
| Gwariant cronedig yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 |
| Rhyddhawyd i Gyfrif Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn | (3) | (1) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1** | **4** |

Mae gan y Comisiynydd brydles weithredu o bum mlynedd yng nghyswllt swyddfeydd, sy'n cynnwys rhent amrywiol dros oes y brydles, a thoriad heb effaith ym mlwyddyn tri ym mis Awst 2021. Cofnodir costau gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles yn unol ag IAS 17. Bydd y credydwr gohiriedig yn rhyddhau'n llwyr ym mlwyddyn tri y brydles.

## 11. Ymrwymiadau dan brydlesi

### Prydlesi gweithredol

Nodir cyfanswm taliadau prydles sylfaenol i'r dyfodol yn y tabl isod wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---:|---:|
| | £000 | £000 |
| **Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 69 | 69 |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd* | 25 | 94 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 0 | 0 |
| | **94** | **163** |

*Mae'r Comisiynydd yn prydlesu un swyddfa ym Mae Caerdydd. *Mae'r Comisiynydd wedi cytuno ar gyfnod prydlesu o bum mlynedd o 5 Awst 2018 ymlaen, gydag opsiwn torri ym mlwyddyn tri. Pennwyd y rhent taladwy ar gyfer tair blynedd gyntaf y cyfnod, gyda rhent taladwy blynyddoedd pedwar a phump i'w gytuno yn ystod 2021-22. Bydd gwerth y brydles hon yn gyson â'i gwerth yn y farchnad agored yn dilyn archwiliad gan syrfëwr annibynnol.

Mae Trysorlys EM wedi cadarnhau'n ddiweddar na fydd yr IFRS16 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 yn dod i rym tan 1 Ionawr 2021. Bydd hyn yn golygu bod rhaid i bob prydles sydd â chyfnod prydlesu hwy na 12 gael ei chydnabod fel asedau ac atebolrwyddau yn y datganiadau ariannol.

## 12. Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion arian y Comisiynydd yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol (buddsoddiadau, deilliadau ac offerynnau ariannol eraill) yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu risg a fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio, ac felly nid yw'r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd, cyfradd llog na risg o ran arian cyfred tramor.

Does dim gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y gwerth ar y llyfrau a gwerth teg atebolrwyddau ac asedau ariannol y sefydliad ar 31 Mawrth 2020.

## 13. Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2018-19: dim). Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo sy'n brydlesi neu'n gontractau PFI (2018-19: dim).

## 14. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon hyn (2018-19: dim).

## 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2019-20 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1,608,000 gan Lywodraeth Cymru (2018-19: £1,543,000).

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2019-20 ni fu'r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Busnes Strategol, nac unrhyw aelod o'u teulu'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hawliadau treuliau a'r taliadau cyflog arferol.

## 16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan Heléna Herklots CBE ar 22 Hydref 2020.